**Rhif:** WG 36143

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol

## Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2019
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 25 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol - Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd

**Trosolwg**

Rydym am gael sylwadau ar gynigion i ddeddfu er mwyn gweithredu trefniadau'r cwricwlwm newydd Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y cwricwlwm. Caiff cynnwys manwl y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019 er mwyn i ysgolion gael rhoi adborth arno a'i fireinio.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **25 Mawrth 2019** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (2017)

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.Cymru
Ffôn: 0300 062 2246

@ LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **3**
**1. Cyflwyniad** **5**
**2. Yr achos o blaid newid** **7**
Camau allweddol yn natblygiad y cwricwlwm newydd hyd yma 7
Dyfodol Llwyddiannus 7
Adroddiadau annibynnol eraill 8
Y Drafodaeth Fawr ar Addysg 8
Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes 9
Lle rydym nawr 9
Adroddiad yr OECD 9
Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 9
Adroddiad y Panel Arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 10
Y cwricwlwm newydd arfaethedig 10
Yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir 13
Yr hyn sydd angen deddfu yn ei gylch 13
Diwygio addysg yn ehangach 14
**3. Pa newidiadau penodol ydym yn eu cynnig?** **15**
Trosolwg o'r cynigion ar gyfer trefniadau'r cwricwlwm 15
Cwricwlwm: cynigion strwythurol 17
Trefniadau Cyfredol 18
Y Cwricwlwm Cyfredol 18
Trefniadau Newydd Arfaethedig 20
Trosolwg 20
Y Pedwar Diben 21
Meysydd Dysgu a Phrofiad 22
Ystod Oedran 14-16 23
Sgiliau Ehangach 23
Blaenoriaethau Cenedlaethol 24
Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd 24
Cynnydd a Dilyniant 24
Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith 26
Y Trefniadau Presennol 26
Y Trefniadau Newydd Arfaethedig 26
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 27
Y trefniadau presennol 27
Trefniadau Newydd Arfaethedig 28
Addysg Grefyddol 31

Y Trefniadau Presennol 31
Trefniadau Newydd Arfaethedig 32
Yr hawl i dynnu plant allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 34
Y Gymraeg a Saesneg 35
Y trefniadau presennol 35
Y Cyd-destun am newid 36
Cyfrwng addysgu a'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm 37
Cynnydd ac Asesu 38
Y Trefniadau Newydd Arfaethedig 39
Beth fydd yn newid? 40
Y Fframwaith Asesu a Gwerthuso 40
Trefniadau Asesu Dysgwyr 42
Y Trefniadau Presennol 42
Y Trefniadau Newydd Arfaethedig 43
Y trefniadau Newydd Arfaethedig ar gyfer Deilliannau Cyflawni 45
Trefniadau Newydd Arfaethedig ar gyfer Canllawiau Statudol 45
Trefniadau Gwerthuso 46
Y trefniadau presennol 46
Trefniadau Newydd 48
Canllawiau ar hunanwerthuso 48
Cyfnod pontio Medi 2020 - Medi 2024 50
Asesiadau effaith 51
**4. Cyflawni** **53**
Dysgu proffesiynol 53
Y Goblygiadau ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) 54
**5. Cwestiynau Ychwanegol** **55**
**Atodiad A** **56**
Rhestr Dermau 56
**Atodiad B** **61**
Meysydd Dysgu a Phrofiad: Cynnwys a Chanllawiau 61

## Rhagair y Gweinidog

Mae cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn yn garreg filltir bwysig ar ein taith i ddiwygio'r system addysg.

Mae pawb, ledled y wlad, yn cyfrannu at genhadaeth ein cenedl i godi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg y gall y genedl fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderu ynddi.

Rwy'n gwybod bod cael hyn yn iawn, er mwyn plant a phobl ifanc Cymru, yn bwysig iawn i’r proffesiwn addysgu yng Nghymru. Wnawn ni fyth rhoi'r gorau i helpu unrhyw un, unrhyw le. Er mwyn parhau i godi safonau i bawb ac ehangu cyfleoedd iddynt, rydym angen rhoi mwy o rym yn nwylo ysgolion ac athrawon drwy symud oddi wrth gwricwlwm cul, anhyblyg a gorlawn.

Mae'r cynigion deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gennyf yn cadarnhau'r egwyddorion, y rhyddid a'r strwythurau ar gyfer ein cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Dyma'r sylfeini ar gyfer ein diwygiadau angenrheidiol ac uchelgeisiol i'r system addysg.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn uchelgeisiol gan ein bod wedi ymrwymo i system sy'n gweithio i bawb, lle mae tegwch yn mynd law yn llaw â rhagoriaeth. Mae angen y newidiadau gan fod diwygio addysg a datblygu dinasyddion gwybodus, dinasyddion sy’n cyfrannu, yn hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd, cydlyniant cymdeithasol a llesiant.

Mae gwella sgiliau a gwybodaeth ein pobl ifanc yn eu harfogi ac yn eu galluogi, ynghyd â'u teuluoedd a'u cymunedau, i fyw bywyd cynhwysfawr, i newid cymdeithas, i greu a chanfod swyddi gwych ac i gyfrannu fel dinasyddion Cymru a'r Byd. Mae sicrhau gwell dyfodol yn dibynnu ar ehangu cyfleoedd addysgol i bawb.

Mae diwygwyr a phobl radical - o'r wlad hon ac o bob cwr o’r byd - wedi gwybod erioed bod addysg yn allweddol i’n cynnydd fel dinasyddion, cymunedau a gwledydd.

Ac yntau ar fin dechrau ar ei fywyd cyhoeddus, dywedodd Abraham Lincoln mai addysg oedd y peth pwysicaf y gall y ddynol ryw ymgymryd ag ef. Cyn y dyddiau heriol hynny, dywedodd y dylai pob dinesydd gael addysg, fel bod pawb yn gallu darllen hanes ei wlad ei hun a hanes gwledydd eraill. Dim ond felly, meddai, y bydd pobl yn dod i ddeall gwerth sefydliadau sy'n rhydd.

Mae datblygu ein cwricwlwm newydd wedi bod yn waith ar y cyd trwy Gymru, a bydd hynny'n parhau, gydag arweiniad a chymorth arbenigwyr rhyngwladol.

Mae'n newid sylfaenol yn ein diwylliant addysg a'n ffordd o wneud pethau. Rydym yn ddemocratiaeth eithaf ifanc o hyd – gallwn lunio syniadau a chyfleoedd cyffrous a newydd. Mae ein gwaith diwygio, a'r cynigion deddfwriaethol hyn, yn sylfaenol i ddinasyddiaeth, i ddysgu ac i fywyd a gwaith yng Nghymru yn y dyfodol.

Rhaid i'n taith diwygio addysg barhau ac fe awn ymlaen gyda'n gilydd. Ein dull gweithredu, fel y'i cynrychiolir gan y Papur Gwyn hwn, yw codi safonau i bawb a sicrhau bod pob

plentyn ym mhob ysgol yn cael cefnogaeth i fod yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywyd.

Er na fydd y diwygiadau hyn ar waith yn llawn ar draws y system addysg gyfan i blant 3-16 oed tan 2026, rwy'n gwbl ffyddiog y gellir mabwysiadu'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r newidiadau ym mhob ysgol cyn hynny. Mae llawer o ysgolion eisoes yn canolbwyntio ar y pedwar diben wrth ddarparu gweithgareddau i'w dysgwyr. Mae cefnogi ymarferwyr yn rhan allweddol o barhau â hyn. Rwy'n annog pob athro, pennaeth a chorff llywodraethu i barhau i ymwneud â'r broses gyffrous hon o newid.



**Kirsty Williams AC**
**Y Gweinidog Addysg**

# 1. **Cyflwyniad**

1.1 *Cenhadaeth ein Cenedl* o ran addysg yw codi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg y gall y wlad fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderu ynddi. Mae'r cwricwlwm newydd, sydd wedi’i lunio yng Nghymru gyda dylanwad y gorau o bob rhan o’r byd, yn rhan hanfodol o gyflawni'r genhadaeth hon.

1.2 Mae'r blynyddoedd i ddod yn hollbwysig o ran gwireddu ein huchelgeisiau - uchelgeisiau i bawb, ledled Cymru. Mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau y gall ein pobl ifanc fyw bywyd personol, dinesig a phroffesiynol boddhaus yn ein democratiaeth fodern.

1.3 Mae'r ymagwedd yn cael ei datblygu a'i chyflawni mewn partneriaeth ag ysgolion ac athrawon ledled y wlad, gyda chymhwysedd digidol yn chwarae rôl bwysig yn hyn o beth. Mae'r disgwyliadau'n uchel - mae hynny'n anorfod - ond yn sail iddynt mae ymrwymiad i ddysgu oddi wrth ein gilydd, a rhannu profiadau ac arbenigedd, wrth inni symud ymlaen i arloesi gyda'n gilydd.

1.4 Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â rhwydwaith o Ysgolion Arloesi ac arbenigwyr i lunio a datblygu cwricwlwm newydd sy'n adlewyrchu'n well anghenion ehangach y wlad a chymdeithas, gan gynnwys anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnwys consortia, Estyn, Awdurdod Lleol, cynrychiolwyr Addysg Bellach ac Uwch a rhanddeiliaid ehangach er mwyn:

> *Llunio cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu sy’n gweddnewid yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd ganddynt safonau llythrennedd a rhifedd uwch, byddant yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a byddant yn datblygu’n feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Bydd ein cwricwlwm cenedlaethol yn seiliedig ar degwch a rhagoriaeth ac yn helpu i feithrin ein pobl ifanc yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgar.*[1]

1.5 Bydd y cwricwlwm newydd yn nodi'n glir ei ddibenion o ran dysgwyr a bydd yn darparu fframwaith galluogi i ysgolion ac athrawon er mwyn iddynt roi eu harbenigedd a'u creadigrwydd ar waith o ran sut i'w gyflawni.

1.6 I weithio'n effeithiol a chyd-fynd â'r cwricwlwm, bydd angen sefydlu ymagwedd gydlynol a chyson tuag at asesu. Rydym yn ailffocysu asesu gan ganolbwyntio ar ddysgwyr unigol er mwyn galluogi pawb i gyflawni eu potensial llawn - ac rydym yn ailddiffinio sut y mae ysgolion yn cael eu gwerthuso a'u cefnogi i wella'u harferion.

1.7 Caiff y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019 a byddwn yn archwilio ac yn ystyried y cymorth a'r dysgu proffesiynol sydd ei angen ar gyfer ymarferwyr, ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin a gyllidir, gan gydweithio â rhwydwaith o ysgolion arloesi ac arbenigwyr addysgol.

---

[1] *https://beta.llyw.cymru/ein-cenhadaeth-genedlaethol*

1.8 Ar y cyd â hyn, mae hefyd angen inni ddiweddaru'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn inni allu rhoi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith.

1.9 Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi'r cynigion deddfwriaethol ac yn esbonio lle byddwn yn dibynnu ar y fframwaith deddfwriaethol cyfredol neu'n gwneud is-ddeddfwriaeth newydd i gefnogi ein bwriadau polisi.


1.10 Yn ei hanfod, bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ategu'r egwyddor o gwricwlwm newydd i Gymru ac yn ei ddiffinio drwy set eang o ddyletswyddau a fydd yn rhoi rhyddid i ymarferwyr ddefnyddio'u crebwyll a'u proffesiynoldeb i ddiwallu anghenion dysgwyr.

1.11 Mae ymgynghoriad y Papur Gwyn yn ceisio barn ar y cynigion am ddeddfwriaeth ar gyfer strwythur y fframwaith ar gyfer y cwricwlwm newydd, gyda'r pedwar diben wrth ei galon, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, y Gymraeg, Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol. Bydd hefyd yn esbonio ein bwriadau ehangach o ran asesu dysgwyr a gwerthuso ysgolion.

1.12 Mae'r Papur Gwyn yn ffocysu ar y cynigion deddfwriaethol sydd eu hangen i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Caiff y cwricwlwm newydd ei gyhoeddi er mwyn cael adborth arno ym mis Ebrill 2019, gan adeiladu ar waith ymgysylltu a chydweithio estynedig gydag ysgolion arloesi ac ymarferwyr.

1.13 Bydd y cwricwlwm terfynol ar gael i ysgolion o 2020 ymlaen, gan eu galluogi i gymryd camau i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn statudol ym mis Medi 2022 (hy. dechrau'r gwaith cam wrth gam o wneud addysgu'r cwricwlwm newydd yn orfodol).

**Diagram 1: Rôl deddfwriaeth yn y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm**



# 2. Yr achos o blaid newid

2.1 Mae diwygiadau gweddnewidiol i'r cwricwlwm yn angenrheidiol er mwyn i'n hysgolion a'n pobl ifanc gyrraedd safonau uwch fyth, ac i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd canlynol:

- Y dystiolaeth o arolygon y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), perfformiad cymharol plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn cymwysterau cenedlaethol, a gwerthusiadau yn adroddiadau Estyn, sydd oll yn dangos nad yw'r lefelau cyrhaeddiad mor uchel ag y gallent ac y dylent fod;
- Y rhagnodi helaeth sydd yn y cwricwlwm cenedlaethol, ynghyd â'r mecanweithiau atebolrwydd, sydd wedi tueddu i greu diwylliant lle bo rôl greadigol yr ysgol wedi'i lleihau, gan gulhau dysgu a gwybodaeth, a lle bo cyfraniad proffesiynol y gweithlu wedi'i danddatblygu;
- Nodweddion hanfodol cwricwlwm a luniwyd ym 1988, gan lywodraeth y pryd yn San Steffan, sy'n adlewyrchu byd nad oedd eto wedi gweld y cynnydd diweddar mewn technoleg, na'r cynnydd sydd i ddod; a
- Threfniadau asesu nad ydynt yn cyfrannu fel y dylent at wella dysgu.

2.2 Ers 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhwydwaith o Ysgolion Arloesi, cynrychiolwyr Addysg Uwch a Phellach, arbenigwyr disgyblaethol ac arbenigwyr eraill, a rhanddeiliaid ehangach, i ddatblygu cwricwlwm newydd sy'n adlewyrchu'n well anghenion ehangach y wlad a chymdeithas, gan gynnwys anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi.

2.3 Y Papur Gwyn yw'r cam nesaf yn y daith hon o ddatblygu cwricwlwm newydd ar y cyd. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhan o'n diwygiadau i godi safonau, cau'r bwlch cyrhaeddiad a chreu system addysg y gallwn, fel gwlad, fod yn falch ohoni a hyderu ynddi.

## Camau allweddol yn natblygiad y cwricwlwm newydd hyd yma

### Dyfodol Llwyddiannus

2.4 Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd yr Athro Donaldson gasgliadau ei adolygiad sylfaenol ac annibynnol o gwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu,*[2] gyfres o argymhellion rhyngberthynol i Lywodraeth Cymru ar sut y dylai addysg yng Nghymru weithio.

2.5 Roedd yr argymhellion yn ymwneud â:

- Diben a diffiniad y cwricwlwm;

[2] https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

- Strwythur y cwricwlwm – ei ehangder a’r camau cynnydd;
- Dewis yn y Cwricwlwm;
- Trefniadau asesu dysgwyr;
- Capasiti athrawon ac arweinwyr;
- Perchenogaeth genedlaethol a lleol;
- Deddfwriaeth; ac
- Atebolrwydd ysgolion.

**Adroddiadau annibynnol eraill**

2.6 Yn ogystal â chynnal ei ymchwil ei hun, roedd yr Adolygiad hefyd wedi troi at y llu o dystiolaeth sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys adroddiadau Estyn, dogfennau polisi Llywodraeth Cymru (gydag adroddiadau gwerthuso cysylltiedig mewn rhai achosion) a’r dystiolaeth bwysig sydd yn yr adroddiadau gan nifer o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru;[3]
- Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4;[4]
- Adroddiad terfynol grŵp adolygu'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru;[5]
- Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol;[6]
- Yr adroddiad ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru;[7]
- Yr adroddiad ar Ddiwylliant a Thlodi: Defnyddio’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru;[8]
- Yr adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.[9]

**Y Drafodaeth Fawr ar Addysg**

2.7 Profwyd argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus* drwy'r 'Drafodaeth Fawr ar Addysg'[10] rhwng mis Mawrth a mis Mai 2015. Cadarnhaodd y Drafodaeth Fawr fod cefnogaeth

[3] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/ict-steering-groups-report/?lang=cy
[4] Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
[5] Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
[6] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/llythrennedd-corfforol-dull-cymru-gyfan-ar-gyfer-cynyddu-lefelau-gweithgaredd-corfforol-ymysg-plant-a-phobl-ifanc-y-grwp-gorchwyl-a-gorffen-ar-ysgolion-a-gweithgarwch-corfforol.pdf
[7] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-or-celfyddydau-mewn-addysg-adroddiad-terfynol
[8] https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tackling-poverty-through-culture/culture-and-poverty-harnessing-the-power-of-the-arts-culture-and-heritage-to-promote-social-justice-in-wales/?lang=cy
[9] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion
[10] Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu - Adroddiad ar ymatebion i'r Drafodaeth Fawr: Adroddiad i Lywodraeth Cymru, Mehefin 2015

gref gan y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r pedwar diben sy'n ganolog i'r cwricwlwm, fel y'u hamlinellwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus.* Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar gyfer strwythur y cwricwlwm ar y cyfan. Roedd cefnogaeth eang i rôl llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn y cwricwlwm, a'r pwyslais ar ddarparu cyfleoedd i ddatblygu'r rhain ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. O ran asesu, roedd canfyddiad cryf nad oedd y system gyfredol yn addas at y diben, a bod y pwyslais ar asesu ar gyfer dysgu yn y cynigion i'w groesawu. Roedd ymatebwyr hefyd eisiau eglurhad a sicrwydd o ran sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys materion megis sicrhau ansawdd.

### Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes

2.8 Cyhoeddwyd *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes* ym mis Hydref 2015 gan y Llywodraeth Cymru flaenorol ac mae'n amlinellu'r camau arfaethedig ar gyfer cyflawni'r argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus.*

2.9 Nododd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhwydwaith o Ysgolion Arloesi ac arbenigwyr i lunio a datblygu'r cwricwlwm newydd a fydd yn fanwl ei ddyluniad, yn gynhwysol, yn eang, yn gytbwys ac yn heriol.

## Lle rydym nawr

### Adroddiad yr OECD

2.10 Ym mis Tachwedd 2016, gwahoddom y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) i archwilio'r gwaith oedd yn mynd rhagddo ar ddiwygio'r system addysg a rhoi sylwadau.  Gwelodd yr OECD fod cynnydd wedi cael ei wneud ers ei ymweliad diwethaf yn 2014 mewn nifer o feysydd  a bod newid sylweddol wedi bod yn ein dull o wella ysgolion – tuag at un a arweinir gan weledigaeth hirdymor. Gwelwyd bod y daith ddiwygio yng Nghymru wedi'i nodweddu'n gynyddol gan gydweithio agos rhwng y llywodraeth a'r sector addysg, gydag ymrwymiad i wella 'yn weledol ar bob lefel o'r system addysg'.[11]

### Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl

2.11 Ar sail adroddiad yr OECD, cyhoeddom *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* ym mis Medi 2017. Mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn cefnogi 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu', un o'r themâu allweddol fel y nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb.* Bydd yn helpu i ddatblygu system ysgolion a fydd yn meithrin uchelgais yn ein dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn, yn gosod y sylfeini ar gyfer dysgu a chyflawni gydol oes, ac yn eu grymuso â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid.

2.12 Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yn seiliedig ar system addysg gwbl gynhwysol lle mae gan bob dysgwr fynediad cyfartal at addysg sy'n diwallu ei anghenion a'i alluogi i gyfranogi, manteisio ar addysg a'i mwynhau.

[11] http://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey-FINAL.pdf

2.13 Mae'n nodi'n fanwl y bydd angen inni, wrth gyflawni ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd, ffocysu ar y pedwar amcan galluogi allweddol canlynol.

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles; a
- Threfniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

2.14 Ategwyd yr ymrwymiad hwn yn y cytundeb newydd (Rhagfyr 2018) rhwng y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg i "*gynllunio, datblygu a darparu cwricwlwm o safon fyd-eang, gyda threfniadau asesu ac atebolrwydd cadarn a thrylwyr a fydd yn codi safonau ein hysgolion*".[12]

**Adroddiad y Panel Arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

2.15 Ym mis Mawrth 2017, sefydlwyd Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd dan gadeiryddiaeth yr Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm o ran addysg rhyw a pherthnasoedd at y dyfodol, fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Diogelwch.

2.16 Roedd adroddiad y Panel, *Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru* [13] yn archwilio statws y cwricwlwm rhyw a pherthnasau nawr ac at y dyfodol, ynghyd â'i ddatblygiad. Daeth ag amrywiaeth o waith ymchwil rhyngwladol ar arferion gorau ynghyd; gan ddangos sut y gall addysg rhyw a pherthnasoedd o safon gefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol.

2.17 Mae'r argymhellion hyn wedi'u defnyddio wrth ddatblygu'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**Y cwricwlwm newydd arfaethedig**

2.18 Yn seiliedig ar y gwaith hwn i gyd, ac wedi'i greu ar y cyd ag ymarferwyr ac arbenigwyr, mae'r cwricwlwm newydd arfaethedig yn golygu y bydd yr ymagwedd gyfan tuag at ddatblygu pobl ifanc 3-16 oed yn newid.

2.19 Mae'r lleoliadau y bydd yn rhaid iddynt addysgu'r cwricwlwm newydd arfaethedig yn cynnwys pob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir ac, oni nodir yn wahanol, ysgolion arbennig yng Nghymru, nad ydynt yn rhai wedi'u sefydlu mewn ysbytai. Ni fydd yn gymwys i ysgolion annibynnol.

2.20 Mae ysgolion a gynhelir yn cynnwys:

- Ysgolion cymunedol;

---

[12] https://beta.llyw.cymru/cytundeb-rhwng-prif-weinidog-cymru-kirsty-williams-ac
[13] Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2017).

- Ysgolion sefydledig;
- Ysgolion gwirfoddol, gan gynnwys-

  - Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, a
  - Ysgolion gwirfoddol a reolir;

- Ysgolion arbennig cymunedol;
- Ysgolion arbennig sefydledig; a
- Ysgolion meithrin a gynhelir.

2.21 Bydd hefyd rhaid i Leoliadau Meithrin a Gyllidir addysgu'r cwricwlwm newydd. Nid oes rhaid i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyflawni'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Serch hynny, mae gofyn i Unedau Cyfeirio Disgyblion cyflawni 'cwricwlwm eang a chytbwys' a bydd y gofyniad hwn yn parhau mewn perthynas â threfniadau'r cwricwlwm newydd. Mae'r Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 yn gwneud un elfen o'r cwricwlwm sylfaenol yn gymwys i Unedau Cyfeirio Disgyblion - sef ei bod yn ofynnol i addysg ryw gael ei haddysgu i ddisgyblion oedran ysgol uwchradd. Bydd hyn yn parhau. Bydd mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd yn y cwricwlwm newydd. Bydd yn datblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a defnyddio eu gwybodaeth yn fwy cadarnhaol a chreadigol. Wrth i'r byd newid, byddant yn gallu ymateb yn fwy cadarnhaol.

2.22 Bydd dysgwyr hefyd yn cael dealltwriaeth ddofn o sut i ffynnu mewn byd mwyfwy digidol. Mae fframwaith cymhwysedd digidol newydd bellach yn cyflwyno sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm, gan baratoi dysgwyr am y cyfleoedd a'r risgiau sydd ynghlwm wrth y byd digidol.

2.23 Bydd yn rhoi mwy o ryddid i athrawon addysgu mewn ffyrdd sydd, o'u safbwynt nhw, yn mynd i sicrhau'r deilliannau gorau i'w myfyrwyr.

2.24 Ffocws canolog y trefniadau asesu arfaethedig fydd sicrhau bod dysgwyr yn deall sut maent yn perfformio a beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf. Bydd pwyslais ar asesu ar gyfer dysgu fel rhan hanfodol o ddysgu ac addysgu.

2.25 Diben y cwricwlwm newydd ("y Pedwar Diben") yw cefnogi ein plant a phobl ifanc i fod:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith;
- Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd; ac
- Yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2.26 Y cynnig yw y bydd y cwricwlwm yn seiliedig ar chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol;
- Iechyd a Lles;
- Y Dyniaethau;
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Mathemateg a Rhifedd; a
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

2.27 Bydd pob MDPh yn cwmpasu’r disgyblaethau canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Y Celfyddydau Mynegiannol - celf, drama, cerddoriaeth, dawns, ffilm a'r cyfryngau digidol, gan gynnwys agweddau creadigol ehangach megis gwaith byrfyfyr;
- Iechyd a Lles - addysg gorfforol, lles corfforol, emosiynol a meddyliol, rhyw a pherthnasau, magu plant, bwyta'n iach a choginio, camddefnyddio sylweddau, dysgu a phrofiad yn gysylltiedig â gwaith, a dysgu am oes;
- Y Dyniaethau - hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, busnes ac astudiaethau cymdeithasol;
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - sgiliau gwrando a siarad (llefaredd) a darllen ac ysgrifennu yn Saesneg ac yn Gymraeg; ieithoedd rhyngwladol; cyfathrebu digidol, a llenyddiaeth;
- Mathemateg a Rhifedd - mathemateg, gan gynnwys cydrannau traddodiadol rhifyddol, mathemateg ac ystadegau ynghyd â rhesymeg; a
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg - ffiseg, cemeg, bioleg, dylunio a thechnoleg, peirianneg a chyfrifiadureg.

2.28 Cynigir hefyd cynnwys tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

2.29 Mae asesu'n broses barhaus sy'n digwydd bob dydd mewn ysgolion. Camau cynnydd i helpu dysgwyr, athrawon, rhieni a gofalwyr i ddeall os yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn briodol. Cynigir y byddant yn nodi disgwyliadau ar gyfer dysgwyr ym mhob maes dysgu, a hynny'n fras ar gyfer disgyblion 5, 8, 11, 14 a 16 oed.

2.30 Mae gwybodaeth fanwl am y cwricwlwm newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[14]

[14] https://beta.llyw.cymru/cwricwlwm-newydd-i-ysgolion

## Yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir

2.31 Ym mis Ebrill 2019, caiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd eu cyhoeddi er mwyn cael adborth, er mwyn inni allu ei fireinio. Yna, bydd gan ysgolion fynediad at y cwricwlwm a threfniadau asesu terfynol o fis Ionawr 2020, i'w galluogi i gymryd camau i baratoi i'w gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022 (hy. dechrau'r gwaith o gyflwyno addysgu'r cwricwlwm newydd yn orfodol). Y cynnig yw y caiff ei gyflwyno o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 7 yn 2022, ymlaen i Flwyddyn 8 ar gyfer 2023 ac ati, tan ei fod wedi'i gyflwyno hyd at Flwyddyn 11 yn 2026, fel y dangoswyd yn yr amserlen.

**Diagram 2: Yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd**

**Addysg yng Nghymru:** Cenhadaeth ein cenedl
Cyflwyno'r cwricwlwm newydd

| | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth derbyn – hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 7 | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn |
| Blwyddyn 8 | Parhau â'r trefniadau presennol | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn |
| Blwyddyn 9 | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn |
| Blwyddyn 10 | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn |
| Blwyddyn 11 | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Parhau â'r trefniadau presennol | Bydd y cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn |

Cwricwlwm newydd a threfniadau asesu yn statudol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn

Cwricwlwm a threfniadau asesu presennol yn berthnasol o hyd

## Yr hyn sydd angen deddfu yn ei gylch

2.32 Rydym wedi pennu bod angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynigion canlynol:

- Y Pedwar Diben;
- Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad;

- Y Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd;
- Y Gymraeg;
- Saesneg;
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;
- Addysg Grefyddol; a
- Trefniadau asesu.

2.33 Y cynigion deddfwriaethol hyn yw ffocws gweddill yr ymgynghoriad Papur Gwyn hwn.

## Diwygio addysg yn ehangach

2.34 Mae'r cwricwlwm newydd yn elfen allweddol o gyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl. Gyda'i gilydd, nod ein cynlluniau, o'r oedran cynharaf, trwy addysg orfodol ac yna addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yw diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymdeithas ddinesig yng Nghymru.

2.35 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae ysgolion, staff a phobl ifanc ar draws y wlad eisoes yn llwyddo i gyrraedd safonau uchel iawn, sydd cystal ag unrhyw un neu unrhyw le yn y byd. Er hynny, mae uchelgais a chydnabyddiaeth ledled y wlad y gallem wneud yn well fyth.

2.36 Byddwn yn parhau ar ein taith o ddiwygio addysg. Rydym eisoes yn cynyddu ein cymorth ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn sylweddol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ein bod yn gwneud y buddsoddiad unigol mwyaf i gynnal athrawon ers datganoli. Mae maint dosbarthiadau babanod yn cael eu lleihau ar draws Cymru, gan ddechrau gyda'r mwyaf, lle mae angen i anghenion dysgu ac addysgu wella, a lle mae lefelau uchel o amddifadedd. Hefyd, rydym yn diwygio addysg uwch ac addysg bellach i sicrhau bod cyllid a chyfleoedd ar gael a fydd yn fanteisiol i ddysgwyr o bob oedran, a byddwn yn parhau i ystyried addysg o ansawdd uchel fel y grym sy'n gyrru symudedd cymdeithasol, ffyniant cenedlaethol a democratiaeth sy'n ymgysylltu.

2.37 Rydym yn gweithio ar broses o ddiwygio, ar wahân i'r Papur Gwyn hwn, er mwyn sicrhau ateb ar draws y system gyfan mewn perthynas â chyllido, rheoleiddio a pherfformiad addysg drydyddol, hyfforddi ac ymchwil ac arloesi – gan greu Comisiwn newydd a fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau ar draws y sectorau hynny, yn gweithio er budd myfyrwyr a'r economi am flynyddoedd i ddod.

# 3. Pa newidiadau penodol ydym yn eu cynnig?

## Trosolwg o'r cynigion ar gyfer trefniadau'r cwricwlwm

3.1 Cynigwn gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu er mwyn ategu'r egwyddor o gwricwlwm newydd i Gymru. Caiff ei ddylunio i roi rhyddid i ymarferwyr ddefnyddio eu crebwyll a'u proffesiynoldeb i ddiwallu anghenion dysgwyr a chodi safonau.

3.2 Er mwyn sicrhau cydraddoldeb ledled Cymru, cynigwn y bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn orfodol i bob ysgol a gynhelir a Lleoliad Meithrin a Gyllidir ar gyfer disgyblion o dan flwyddyn 12 (16 oed ac iau) (Adran 98 o *Ddeddf Addysg 2002*).

3.3 Mae addysg yn orfodol i blant 5-16 oed ac ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn newid hynny. Bydd rhieni neu warcheidwaid yn dal i allu dewis dechrau addysg plentyn cyn 5 oed. Bydd y ffocws ar addysgu cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad dysgwyr,[15] cynnwys a fydd yn caniatáu iddynt fanteisio i'r eithaf ar eu hamser mewn addysg ac yn eu helpu i ffynnu drwy gydol eu bywydau.

3.4 I grynhoi, fel y trefniadau cyfredol, cynigir y bydd y cwricwlwm newydd yn darparu ar gyfer:

- plant 3-5 oed sy'n mynd i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion a gynhelir a phlant sy'n mynychu Lleoliadau Meithrin a Gyllidir; a
- plant 5-16 oed sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

[15]Diffiniad y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o 'priodol o ran datblygiad': *“Part of designing an effective education curriculum for children and young people is tailoring it to their intellectual, cognitive and social development in general, and to their emerging social and sexual identities and relations in particular” (Flood, Fergus and Heenan, 2009, p.47)(Saesneg yn unig)*

## Diagram 3: Y Pedwar Diben

**Bydd ein holl blant a phobl ifanc...**

**yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:**

- yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau
- yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
- yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac **yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**.

**yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:**

- yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
- yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
- yn mentro'n bwyllog
- yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac **yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**.

**yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**

- yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd**.

**yn unigolion iach, hyderus sydd:**

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu trechu
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant

ac **yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**.

## Cwricwlwm: cynigion strwythurol

***Crynodeb o'r cynigion*:**

Y Pedwar Diben

- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyflawni'r pedwar diben.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid i ddarparu cwricwlwm sy'n cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad sydd wedi'u henwi. Ac i gyd-fynd â hynny, pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ychwanegu neu ddiddymu Maes Dysgu a Phrofiad.

- Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau statudol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad yn nodi datganiadau am sut dylai agweddau ar y cwricwlwm gael eu cynnwys yn y MDPh, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sail resymegol, y cymorth cynllunio, a'r disgrifiadau o'r dysgu.

- Diwygio darpariaethau mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol fel bod y gofyniad yn adlewyrchu hawl i astudio cyrsiau o fewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad rhwng 14 ac 16 oed.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

- Dyletswydd ar ysgolion i addysgu tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd. I gyd-fynd â hyn, pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ychwanegu neu ddiddymu Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd.

Cynnydd a Dilyniant

- Cael gwared ar y derminoleg 'Cyfnod Sylfaen' a'r 'Cyfnodau Allweddol' i greu un continwwm dysgu.

- Dyletswydd i gael ei roi ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm sy'n galluogi'r mwyafrif o ddysgwyr i gyrraedd Deilliannau Cyflawniad a osodir gan yr ysgol, neu i fynd y tu hwnt iddynt, ac i wneud cynnydd ar hyd y continwwm a'r Camau Cynnydd yn unol â datblygiad addysgol y plentyn dan sylw.

- Dyletswydd i ysgolion gael Deiliannau Cyflawni - ond bydd disgresiwn gan ysgolion o ran beth ydynt. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu canllawiau statudol ar Ddeilliannau Cyflawniad i gynorthwyo ysgolion.

## Trefniadau Cyfredol

3.5 Mae gan y trefniadau cyfredol set o egwyddorion trosfwaol y mae disgwyl i gynnwys y cwricwlwm eu bodloni.

3.6 Rhaid i'r cwricwlwm cyfredol fod yn gytbwys ac iddi sail eang sy'n:

- Hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas; ac
- Sy'n paratoi disgyblion am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau yn nes ymlaen mewn bywyd.

3.7 Mae adran 100 o *Ddeddf Addysg 2002* yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol yng Nghymru, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion i arfer eu swyddogaethau i sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer pob ysgol yn bodloni'r gofynion cyffredinol hynny. Mae hyn yn gymwys i ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig a gynhelir ac addysg feithrin a gyllidir.

## Y Cwricwlwm Cyfredol

3.8 Nodir y brif ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm yn Adran 101 o *Ddeddf Addysg* 2002. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r 'cwricwlwm sylfaenol' gael ei ddysgu ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys:

- Addysg Grefyddol ar gyfer pob disgybl cofrestredig (ond heb gynnwys dysgwyr mewn dosbarthiadau meithrin);
- Addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer pob disgybl cofrestredig o oedran ysgol gorfodol;
- Addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer pob disgybl cofrestredig rhwng CA3 a CA4;
- Addysg ryw ar gyfer pob disgybl cofrestredig mewn ysgolion uwchradd a, mewn ysgolion arbennig, y sawl sy'n cael addysg uwchradd;
- Mewn ysgolion uwchradd, y cwricwlwm lleol (y cynnig i bobl ifanc 14-16); a
- Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol sydd wedi cyrraedd tair oed ond nad ydynt dros oedran addysg orfodol (hy. 3-16 oed).

3.9 Mae deddfwriaeth gyfredol yn rhannu'r 'Cwricwlwm Cenedlaethol' yn 'Gyfnod Sylfaen' ac yn 'Gamau Allweddol' (*Deddf Addysg 2002*, Rhan 7).

3.10 ***Y Cyfnod Sylfaen:*** mae'r Cyfnod Sylfaen yn gymwys i ddysgwyr 3 i 7 oed.[16]

3.11 ***Cyfnod Allweddol 2*****:** dyma'r cyfnod sy'n dechrau'r un pryd â'r flwyddyn ysgol pan fo'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn 8 oed. Daw i ben yr un pryd â'r flwyddyn ysgol pan fo mwyafrif y disgyblion yn 11 oed.

3.12 ***Cyfnod Allweddol 3:*** dyma'r cyfnod sy'n dechrau'r un pryd â'r flwyddyn ysgol pan fo'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn 12 oed. Daw i ben yr un pryd â'r flwyddyn ysgol pan fo mwyafrif y disgyblion yn 14 oed. Y cyfnod hwn yw cychwyn addysg uwchradd.

3.13 Ar gyfer plant 8-14 oed, rhaid i Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru gynnwys:

***Pynciau craidd***

- Mathemateg
- Saesneg
- Gwyddoniaeth
- Cymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg)

***Pynciau sylfaen***

- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Addysg Gorfforol
- Hanes
- Daearyddiaeth
- Celf a Dylunio
- Cerddoriaeth
- Cymraeg (mewn ysgolion nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg)

***Pwnc sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 3 yn unig***

- Iaith dramor fodern

3.14 ***Cyfnod Allweddol 4:*** Cyflwynodd *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* y cwricwlwm lleol i mewn i'r cwricwlwm i Gymru. Ar hyn o bryd mae'r cwricwlwm lleol yn darparu bod disgyblion Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion a gynhelir yn gallu dewis cwrs neu gyrsiau astudio o isafswm o 25 dewis (rhaid i o leiaf tri ohonynt fod yn rhai galwedigaethol). Mae hyn er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu dewis cyrsiau sy'n bodloni eu hanghenion.

3.15 Ar hyn o bryd, mae manylder yr hyn y mae'n rhaid ei ddysgu fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol y cwricwlwm cenedlaethol wedi'i nodi mewn cyfres o ddogfennau y'u gelwir yn aml yn rhaglenni astudio. Mae pŵer datganedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi manylion y rhaglenni addysgol mewn dogfen ar wahân. Nid yw'r ddogfen honno'n rhan o'r Gorchymyn mewn gwirionedd, ond rhoddir grym cyfreithiol iddi fel petai hi. Rhaid addysgu cynnwys y rhaglenni astudio mewn ysgolion.

3.16 Gall Gweinidogion Cymru drwy Orchymyn hefyd ragnodi targedau cyrhaeddiad a threfniadau asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol. Mae pŵer

[16] Yn wreiddiol, roedd Cyfnod Allweddol 1 yn cynnwys 3-7 oed (mae hyn yn dal yn wir yn Lloegr). Mae Cyfnod Allweddol 1 wedi'i ddisodli gan y Cyfnod Sylfaen.

datganedig sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru nodi manylion y targedau cyrhaeddiad a'r trefniadau asesu mewn dogfen ar wahân.  Fel y nodir uchod, nid yw'r ddogfen honno'n rhan o'r Gorchymyn mewn gwirionedd, ond rhoddir grym cyfreithiol iddi fel petai hi. Mae'r ffordd hon o weithio'n ffordd ddeddfwriaethol a rhagnodedig. Bydd y trefniadau newydd yn wahanol iawn i hyn.

## Trefniadau Newydd Arfaethedig

### Trosolwg

3.17 Fel rhan allweddol o’n diwygiadau, nod ein cynigion yw ail-lunio ein hymagwedd at y cwricwlwm a rhoi Cymru ar y blaen gyda chwricwlwm modern a blaengar.

3.18 Mae ein hymagwedd yn seiliedig ar optimistiaeth ynghylch potensial ein plant, ein hathrawon, ein myfyrwyr a'n sefydliadau. Nod y cynigion hyn yw gwella’n hymagwedd i edrych at y dyfodol a chanolbwyntio ar y disgyblion, ymagwedd fydd hon a gaiff ei harwain gan ymarferwyr.

3.19 Nod y newidiadau allweddol rydym yn eu cynnig, sy'n adlewyrchu argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus*, yw creu system sy'n:

- Adlewyrchu dibenion y cwricwlwm, ac yn eu hyrwyddo;
- Ymgorffori’r hawl sydd gan bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, i gael addysg eang sy’n uchel ei hansawdd ac yn briodol o ran ei chydbwysedd drwy gydol eu cyfnod o addysg statudol;
- Hybu cynnydd yn y dysgu gan blant a phobl ifanc;
- Hybu cydlyniant a chymell plant a phobl ifanc i greu cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar eu dysgu;
- Hybu addysgu a dysgu sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd;
- Mor syml a hawdd ei ddeall â phosibl; ac
- Y mae rhieni, gofalwyr ac athrawon yn ei ddeall ac yn hyderu ynddo.

3.20 Nod ein cynigion yw ategu egwyddor fframwaith cwricwlwm newydd i Gymru, a rhoi rhyddid i ymarferwyr ddefnyddio eu proffesiynoldeb a'u crebwyll i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu'r uchelgeisiau ac argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus*. I weithredu hyn, cynigiwn roi tipyn llai o fanylder mewn deddfwriaeth o ran cynnwys y cwricwlwm.

3.21 Cynigiwn gyfyngu deddfwriaeth i'r elfennau a nodir yn y grynodeb o gynigion ym mharagraff 2.32.  Caiff 'cynnwys' Meysydd Dysgu a Phrofiad ei amlinellu mewn canllawiau statudol i gefnogi addysgu dysgwyr ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

**Y Pedwar Diben**

3.22 Cynigiwn barhau â'r ddyletswydd y dylai'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion a gynhelir fod yn eang ac yn gytbwys. Fodd bynnag, caiff y cyfeiriadau at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau yn ddiweddarach yn eu bywydau eu disodli gan Bedwar Diben y Cwricwlwm Newydd. Y bwriad yw y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol (mewn perthynas â'r ysgolion y maent yn eu cynnal), cyrff llywodraethu a phenaethiaid i arfer eu swyddogaethau addysg i sicrhau bod gofynion cyffredinol y cwricwlwm newydd i gael eu bodloni (hy. bod rhaid i'r cwricwlwm fod yn eang ac yn gytbwys a chyflawni'r Pedwar Diben).

3.23 Bydd y Pedwar Diben, y cynigiwn ddeddfu ar eu cyfer, yn hwyluso datblygiad:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranogwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i gyfrannu'n llawn at fywyd a gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; a
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

3.24 Rydym yn gwneud hyn am mai datganiadau amcanion neu ddibenion yw man cychwyn manylebau cwricwlwm llawer o wledydd. Gan amlaf, maent yn ymwneud â'r goblygiadau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r economi ac yn pennu trywydd cyffredinol i'w dilyn wedyn wrth wneud penderfyniadau am strwythur a chynnwys. Yn ei adolygiad diweddar o addysg ysgol yng Nghymru, canfu'r OECD nad oedd set o nodau a dibenion cyffredinol pendant wedi'i llunio ar gyfer Cymru ac roedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth o ddysgwyr – gweledigaeth a rennir, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i ansawdd a thegwch. Mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu naratif clir a chynhwysfawr yn nodi pedwar amcan galluogi a fydd yn sicrhau cyflawniad cwricwlwm newydd:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n hunanwella.

3.25 Mae'r rhain yn cefnogi amcanion y Llywodraeth, sef codi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg y gall y wlad fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderu ynddi.

3.26 Drwy ddeddfu ar gyfer datganiadau diben clir a chytûn ar gyfer y cwricwlwm, bwriadwn:

- Sicrhau eglurder o ran dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru;
- Rhoi pwys ar ddeilliannau tymor hwy ar gyfer plant a phobl ifanc y tu hwnt i'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth benodedig y mae disgwyl i ysgolion eu cyflwyno;
- Cymell pawb ym maes addysg i ddilyn cenhadaeth gyffredin;
- Hyrwyddo perchenogaeth eang ar addysg ac agor y drafodaeth ar y cwricwlwm i bobl y tu hwnt i weithwyr proffesiynol;
- Darparu pwynt cyfeirio cyson ar gyfer datblygu'r cwricwlwm gan hyrwyddo cydlyniant, dilyniant a hyblygrwydd o ran bwriadau dysgu;
- Sefydlu sail gadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau wrth i'r pwysau ar y cwricwlwm barhau i gynyddu;
- Amddiffyn y cwricwlwm rhag ei gyfyngu mewn ymateb i bwysau tymor byr;
- Gweithredu fel canllaw cyson ar gyfer dethol cynnwys, profiadau ac addysgeg;
- Darparu sail ar gyfer sicrhau cytundeb angenrheidiol rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol, ysgolion ac athrawon ynghylch y cyfeiriad cyffredinol a ddymunir, gan ganiatáu rhyddid i benderfynu ar y ffordd o gyflawni'r bwriadau;
- Hyrwyddo'r sail ar gyfer sicrhau ffocws a chysondeb yn natblygiad proffesiynol athrawon; a
- Sicrhau ffocws cyffredinol ar gyfer atebolrwydd a gwella.

3.27 Caiff y dibenion hyn eu cynnwys ar wyneb y ddeddfwriaeth arfaethedig. Ymhelaethodd *Dyfodol Llwyddiannus* ymhellach ar y dibenion hyn gyda nodweddion allweddol i ddarparu canllaw ymarferol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu. Cynigiwn y caiff y nodweddion hyn eu hamlinellu mewn canllawiau MDPh y bydd rhaid i ymarferwyr roi sylw iddynt. Nodir y rhain yn niagram 3 ar dudalen 16.

3.28 Y cynnig yw y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol a fydd yn esbonio sut y gallai ysgol ddatblygu cwricwlwm a fyddai'n bodloni'r pedwar diben. Rhan allweddol o hynny fydd disgrifio y dylai unrhyw gwricwlwm allu cynhyrchu dysgwyr sy'n bodloni'r nodweddion uchod. Rhagwelir y bydd y nodweddion yn datblygu dros amser - dyna pam y darperir ar eu cyfer mewn canllawiau statudol y gellir eu diweddaru. Bydd amlinellu'r nodweddion allweddol hyn mewn canllawiau statudol yn sicrhau eu bod yn ganolog i gynllunio, dysgu ac addysgu, ond hefyd y caniateir hyblygrwydd er mwyn iddynt ddatblygu a diweddaru yn unol â datblygiadau yn y dyfodol.

### Meysydd Dysgu a Phrofiad

3.29 ran strwythur y cwricwlwm, cynigwn enwi'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) mewn deddfwriaeth ynghyd â gorchymyn sy'n creu pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ychwanegu atynt, neu eu diddymu. Mae'r

Meysydd Dysgu a Phrofiad y cynigwn wneud darpariaethau ar eu cyfer yn y ddeddfwriaeth fel a ganlyn:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed)
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg, a fydd yn parhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed, ac ieithoedd tramor modern)
- Mathemateg a Rhifedd; a
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

3.30 Bydd cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad (gweler Atodiad B), gan gynnwys y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, yn nodi agweddau hanfodol dysgu ar draws y MDPh cyfan ac yn cysylltu â'r pedwar diben. Caiff cymorth cynllunio a disgrifiadau dysgu ei nodi mewn canllawiau statudol. Ym marn rhai, mae'r trefniadau cyfredol yn y Rhaglenni Astudio yn anhyblyg ac nid ydynt yn hyrwyddo arloesedd. Yn y dyfodol, bydd angen i ysgolion a chyrff llywodraethu roi sylw dyledus i gynnwys y canllawiau wrth ddatblygu gwersi. Bydd yn caniatáu mwy o ryddid i ysgolion ymateb i gyd-destunau lleol ac mae'n rhoi hyblygrwydd i addasu'r cwricwlwm dros amser ac yng ngoleuni tystiolaeth am ei weithrediad. Eisoes, mae enghreifftiau o ysgolion yn mabwysiadu'r athroniaeth sy'n sail i'n diwygiadau ond bydd newid deddfwriaethol yn rhoi hwb i bob ysgol wneud newidiadau.

**Ystod Oedran 14-16**

3.31 I hwyluso dysgu eang, y disgwyl yw y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin a gyllidir yn astudio'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad (gan ystyried cynnwys y canllawiau statudol) yn eu cyfanrwydd tan eu bod yn 14 oed. O 14 oed ymlaen, bydd gan ddysgwyr ddewisiadau o ran p'un ai i arbenigo mewn meysydd penodol, gan barhau i gael profiadau ar draws pob MDPh, neu barhau i astudio'n eang ar draws pob MDPh.

**Sgiliau Ehangach**

3.32 Gwnaeth *Dyfodol Llwyddiannus* hefyd argymhelliad bod agweddau eraill ar y cwricwlwm y dylai dysgwyr barhau i'w hastudio hyd at 16 oed. Mae'r rhain yn cynnwys y sgiliau ehangach. Cynigwn y dylai’r rhain gael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad drwyddi draw. Caiff y sgiliau ehangach hyn eu hamlinellu mewn canllawiau statudol i gefnogi ymarferwyr i helpu plant i ddatblygu eu:

- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu

- Creadigrwydd ac arloesedd
- Effeithiolrwydd Personol

3.33 Caiff y sgiliau ehangach hyn eu cynnwys ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad a chynigwn yr ymdrinnir â nhw mewn canllawiau statudol a chanllawiau ategol eraill. Ni chynigwn wneud unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r rhain, gan gyd-fynd ag argymhellion deddfwriaethol *Dyfodol Llwyddiannus*, ac i sicrhau hyblygrwydd at y dyfodol.

**Blaenoriaethau Cenedlaethol**

3.34 Nododd *Dyfodol Llwyddiannus* hefyd y dylai dysgwyr barhau i astudio agweddau ar y cwricwlwm sy'n cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, a hynny hyd at 16 oed. I ganiatáu hyblygrwydd i'r cwricwlwm newydd ddatblygu ac ymateb i anghenion y dyfodol, nid ydym yn cynnig rhestru pob blaenoriaeth genedlaethol mewn deddfwriaeth. Yn dibynnu ar natur y flaenoriaeth, cânt eu nodi mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys drwy ganllawiau statudol y Meysydd Dysgu a Phrofiad, rhaglenni cymorth Llywodraeth Cymru, cynlluniau lefel ysgol ac wrth werthuso. Byddwn yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â'r Gymraeg a Saesneg, er enghraifft, a nodir ein cynlluniau ar gyfer y rhain yn y Papur Gwyn hwn.

**Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd**

3.35 Bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn statudol hyd 16 oed. Cynigiwn restru'r rhain mewn deddfwriaeth sylfaenol gyda phŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio, ychwanegu neu ddiddymu Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd. Bydd hyn yn galluogi'r cwricwlwm i gael ei ddiweddaru i gyd-fynd â datblygiadau cymdeithasol a thechnolegol.

3.36 Ni chaiff manylion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd na'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol eu rhoi mewn deddfwriaeth. Yn hytrach, cânt eu cyhoeddi a byddant ar gael i gefnogi ysgolion a lleoliadau i gynnwys y cyfrifoldebau hyn ar draws y cwricwlwm. Hefyd, lle y bo'n briodol, cyfeirir atynt yng nghanllawiau statudol y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

**Cynnydd a Dilyniant**

*Y Continwwm*

3.37 Cynigiwn drefnu'r cwricwlwm newydd fel continwwm dysgu o 3 oed i 16 oed. Bydd y pwyslais ar bontio'n llyfn - caiff cyfeiriadau at 'Gyfnod Sylfaen a 'Chyfnodau Allweddol' eu diddymu. Cynigiwn y caiff cynnydd ei ddangos drwy Gamau Cynnydd - a hynny ar bum pwynt ar hyd y continwwm dysgu. Yn fras, bydd hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau ar gyfer plant 5, 8, 11, 14 a 16 oed. Bydd y Camau Cynnydd hyn yn gweithredu fel 'trywydd' ar gyfer datblygiad pob dysgwr - gan ystyried galluoedd, profiadau, a chyfraddau dysgu a deall yr unigolyn. Fe ddeddfwn i ddiffinio'r camau cynnydd ar gyfer y cerrig milltir oedran uchod, ond bydd cynnwys pob cam yn cael ei nodi mewn canllawiau statudol.

3.38 Yr amcan yw galluogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn. I gyflawni hyn, cynigiwn roi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir i:

- Helpu'r mwyafrif o ddysgwyr i gyflawni pob Cam Cynnydd, neu fynd y tu hwnt i hynny; a
- Cael polisïau a gweithdrefnau ar waith i fonitro cynnydd pob disgybl a phennu disgyblion sy'n cael trafferth ac na fydd, o bosib, yn bodloni'r Deilliannau Cyflawniad, a'r disgyblion a allai ymdopi â gwaith anoddach.

3.39 Diben y dyletswyddau hyn yw galluogi pob dysgwr unigol i edrych ymlaen ar y continwwm dysgu a symud drwy'r Camau Cynnydd i gyflawni eu potensial. Caiff y Deilliannau Cyflawniad ar gyfer pob Cam Cynnydd eu hamlinellu yn y canllawiau statudol ar gyfer pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

3.40 Nid ydym am i ysgolion ruthro dysgwyr drwy'r Camau Cynnydd heb iddynt fod yn barod. Rydym am sicrhau bod dyfnder i'r dysgu i gyflawni'r hyn a amlinellir ym mhob un o'r Deilliannau Dysgu a fynegir ym mhob Cam Cynnydd. Cynigwn felly y bydd angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid gael polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni'r amcanion hynny a chyflawni'r ddyletswydd. Mae'r ffordd hon ymlaen yn adlewyrchu egwyddorion sy'n sail i gynigion yr Athro Donaldson y dylai cynnwys y cwricwlwm a'r asesu fod yn bersonol i bob dysgwr. Y ffocws yw codi safonau a sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial drwy ffocysu ar gael darlun cywir o ddatblygiad addysgol pob plentyn ac yna gosod Deilliannau Cyflawniad i'w gwthio mor bell ag y gallant fynd. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu mynd y tu hwnt i Gam Cynnydd, rhagori arno; mewn achosion eraill ni fydd hynny'n wir.

3.41 Byddai'r corff llywodraethu yn cymryd rôl strategol (yn unol â *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000*) yn y gwaith o osod polisïau, nodau ac amcanion tra byddai'r pennaeth yn gwneud y trefniadau ac yn gosod arferion a gweithdrefnau.

Cwestiynau:

1. Ydych chi'n cytuno â'n dull o ddeddfu ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd?
2. Ydych chi'n cytuno y dylem roi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir i ddarparu cwricwlwm i helpu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gyrraedd y Deilliannau Cyrhaeddiad a osodir gan yr ysgol, neu ragori arnynt, ac i helpu plant i symud ar hyd y continwwm a’r Camau Cynnydd yn unol â'u datblygiad addysgol?
3. Pa gamau ddylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd hon?
4. Pa gymorth fyddai ei angen i alluogi ysgolion i gymryd y camau hynny?

## Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith

***Crynodeb o'r cynnig*:**

- Byddwn yn parhau gyda'r gofyniad presennol yn adran 43 o *Ddeddf Addysg 1997* (*Addysg Gyrfaoedd*) fel bod rhaglen o addysg gyrfaoedd yn cael ei darparu i ddysgwyr 13-16 oed.
- Dirymu'r gofyniad cwricwlwm sylfaenol bod ysgolion yn rhoi addysg gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion 11-16 oed (yn fras).
- Bydd addysg gyrfaoedd a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith sy'n addas i'r oedran[17] yn cael eu hymgorffori ym mhob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad o 3 oed ymlaen a bydd ffocws ychwanegol ar hyn o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

**Y Trefniadau Presennol**

3.42 Mae Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl cofrestredig 11-16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn canolbwyntio ar sgiliau a fyddai'n berthnasol i'r gweithle. Mae addysg gyrfaoedd yn canolbwyntio ar gyngor a fydd yn tywys disgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau am addysg neu hyfforddiant pellach neu pan fyddant ar fin mynd i fyd gwaith.

**Y Trefniadau Newydd Arfaethedig**

3.43 Bydd addysg gyrfaoedd sy'n addas i'r oedran ar gael o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd profiadau mewn perthynas â gwaith perthnasol hefyd ar gael, pan fo hynny'n briodol. Yn benodol, bydd addysg gyrfaoedd yn cael ei chynnwys hefyd o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd penderfyniadau sy'n ymwneud â gyrfaoedd ar iechyd a lles dysgwyr. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn pwysleisio sgiliau megis ymateb i heriau a datblygu perthnasoedd cadarnhaol sy'n hanfodol ar gyfer gyrfaoedd dysgwyr yn nes ymlaen.

3.44 Bydd canllawiau ar Yrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith yn cael eu datblygu i roi cymorth i ymarferwyr. Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r canllawiau hyn wrth gynllunio gweithgareddau addysg gyrfaoedd a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith i ddysgwyr fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid allweddol.

[17] Yn dilyn trafodaeth â rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig newid yr enw 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith' i 'Gyrfaoedd a Phrofiadau'n ymwneud â Gwaith'.**

3.45 Mae rhaglen beilot o'r *Gatsby Good Career Guidance Benchmarks*[18] yn digwydd ar draws awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf sy'n ymwneud â gyrfaoedd a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith gyda golwg ar ddefnyddio'r meincnodau hynny wedyn i ysgogi gwelliannau trwy Gymru. Bydd y fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith presennol yn cael enw newydd, sef '*Gyrfaoedd a Phrofiadau'n Gysylltiedig â Gwaith*' i adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd i helpu i sicrhau bod gyrfaoedd a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith yn parhau i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Cwestiwn:

5. Ydych chi'n cytuno y dylai addysg gyrfaoedd ac addysg gysylltiedig â gwaith, sy'n briodol o ran oedran, gael ei rhoi i blant 3-16 oed, yn unol â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad?

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

***Crynodeb o'r cynigion*:**

Caiff addysg ryw ei hailenwi'n Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn deddfwriaeth sylfaenol a chaiff ei hategu gan ddisgrifiad newydd mewn canllawiau.

Mae addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd yn orfodol ym mhob ysgol a gynhelir a Lleoliad Meithrin a Gyllidir i'r holl ddisgyblion oedran ysgol gorfodol, ond yn ddewisol i'r disgyblion y chweched dosbarth.

Cedwir y ddyletswydd bresennol i roi canllawiau statudol ar addysg ryw (a chaiff ei hestyn i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) ond caiff ei diwygio fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sydd yn berthnasol i'r oedran ac o ran datblygiad.

Cedwir y ddyletswydd ar ysgolion a gynhelir i ddatblygu polisi ar addysg ryw, ei gadw'n gyfredol, a gwneud yn siŵr ei fod ar gael i rieni a dysgwyr.

### Y trefniadau presennol

3.46 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol bod holl ddisgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynd i leoliadau a gynhelir yn cael addysg ryw (nodir yn Adran 101(c) a (d) o *Ddeddf Addysg 2002*). Mae ysgolion cynradd yn gallu darparu addysg ryw ond mae hyn yn ôl disgresiwn eu cyrff llywodraethu. Mae addysg ryw yn cael ei

[18] http://www.gatsby.org.uk/education/focus-areas/good-career-guidance

diffinio mewn deddfwriaeth fel rhywbeth sy'n cynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i, addysgu ynghylch Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol a HIV/AIDS (nodir yn Adran 579 o *Ddeddf Addysg 1996*). Mae rhaid i ysgol gael polisi ysgrifenedig sydd wedi ei gyhoeddi, ar yr addysg ryw y mae'n ei darparu, a rhaid i'r polisi hwnnw fod ar gael os bydd rhieni yn gofyn amdano (nodir yn Adran 404 o *Ddeddf Addysg 1996*). Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau er mwyn cefnogi ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau yn y maes hwn.[19]

3.47 Mae gofynion statudol ar ysgolion i ddarparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol i ddisgyblion 7 i 16 oed. Mae'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth yn cael ei gefnogi gan ddogfen fframwaith anstatudol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol, sydd yn cynnwys thema ‘iechyd a lles emosiynol’. Er hynny, oherwydd bod y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn anstatudol; mae ysgolion yn rhydd i benderfynu ar y cynnwys a'r dull gweithredu o ran cyflwyno.

3.48 Mae Addysg Perthnasoedd eisoes yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen i ddisgyblion 3-7 oed. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. O fewn hyn, mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn y teulu a'r tu allan iddo. O Gyfnod Allweddol 2 (7 oed) ymlaen, gall ysgolion ddefnyddio canllawiau, sef *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion* a'r thema iechyd a lles emosiynol o'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol i'w cefnogi i gynllunio'r rhan o'u darpariaeth sy'n ymwneud â pherthnasoedd. Mae'r canllaw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn anstatudol.

**Trefniadau Newydd Arfaethedig**

3.49 Nododd y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd bod y diffiniad rhannol a geir o addysg ryw (sy'n cyfeirio at addysg ar glefydau a drosglwyddir yn rhywiol) o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm presennol wedi tueddu i arwain ysgolion at fabwysiadu a chreu darpariaeth sy'n gul ac yn canolbwyntio ar fioleg. Yn gyffredinol, nid yw materion ehangach, felly, yn flaenoriaeth; oherwydd diffyg amser ac adnoddau a’r ffaith y caiff ei chyflwyno gan staff nad ydynt yn arbenigo yn y maes. Roedd hyn hefyd ymhlith casgliadau adolygiad thematig Estyn ym mis Gorffennaf 2017 sef *Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach*[20], a nododd nad yw ysgolion yn neilltuo digon o amser i, nac yn rhoi digon o bwys ar, Addysg Cydberthynas a Rhyw a bod athrawon yn brin o'r hyder a'r wybodaeth angenrheidiol i ymateb yn effeithiol i anghenion dysgwyr.

3.50 Gwnaed 11 o argymhellion yn yr adroddiad[21] gan y panel o arbenigwyr, gan gynnwys:

---

[19] Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 2019/2010

[20] https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/adolygiad-o-addysg-perthnasoedd-iach

[21] https://beta.llyw.cymru/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-pherthnasoedd

- Newid enw'r pwnc [22] i adlewyrchu dull gweithredu sy'n fwy cynhwysol a holistaidd, ar sail hawliau a thegwch rhywiol;
- Ei gwneud yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i'r holl ddysgwyr o dan 16 oed;
- Sefydlu llwybrau dysgu proffesiynol o fewn addysg gychwynnol athrawon a'r gweithlu presennol; ac
- Ehangu gallu'r gweithlu addysg i ymateb i ystod ehangach o addysg, gyda gwell pwyslais ar roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt ddelio â materion sy'n cynnwys cam-drin domestig, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a materion Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

3.51 Er mwyn gweithredu'r newidiadau a nodwyd gan y Panel o Arbenigwyr, cynigwn wneud darpariaeth yn y ddeddfwriaeth y dylai addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn orfodol o 3 oed i 16 oed ar gyfer ysgolion a gynhelir a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir. Bydd newid enw'r pwnc yn galluogi iddo adlewyrchu’r ystod ehangach o ystyriaethau yr oedd y Panel o Arbenigwyr yn eu hystyried yn bwysig, gan dynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd iach ac adlewyrchu cronoleg addysgu'r pwnc.

3.52 Bydd angen i ymarferwyr gael yr hyder a'r hyblygrwydd i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau cymdeithasol a allai gael effaith ar iechyd a lles eu dysgwyr. Felly, bydd canllawiau statudol yn gosod cwmpas Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn llunio'r addysgu a'r dysgu.

3.53 Mae cwmpas cychwynnol o'r hyn a allai gael ei gynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ar sail y cyngor gan y Panel o'r Arbenigwyr, wedi helpu i lunio polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a bydd yn sail ar gyfer datblygu canllawiau statudol.

3.54 Nod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw meithrin a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o’r hyn all ddylanwadu ac effeithio arnynt, yn gadarnhaol ac yn negyddol, wrth iddynt geisio sefydlu a datblygu cydberthnasau iach ar sail parch. Mae hyn yn cynnwys dysgu am y canlynol, a mwy:

- Gwahanol fathau o gydberthnasau, megis rhai teuluol, rhai rhywiol, rhai nad ydynt yn rhywiol;
- Y corff a newidiadau: sut mae hyn yn dylanwadu ar ymddygiad a chydberthnasau;
- Dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar bortreadu’r corff a chydberthnasau; ac
- Iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

[22] Awgrymodd y Panel o Arbenigwyr yr enw newydd ‘Addysg Rhywioldeb a Chydberthynas’ (‘*Sexuality and Relationship Education*’), rydym yn cynnig, ar ôl trafod a rhanddeiliaid, yr enw newydd ‘Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb’ (‘*Relationships and Sexuality Education’*).

3.55 Y nod yw gwella proffil, ansawdd a chysondeb Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn i ysgolion allu:

- Rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ac sy'n atgyfnerthu eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi;

- Datblygu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel sy'n ymateb yn effeithiol i ystod eang o faterion ac i brofiadau eu dysgwyr; a

- Sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at ystod eang o gymorth a chyngor.

3.56 Cynigwn ddiwygio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer canllawiau yn y ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn i Weinidogion Cymru roi canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n 'addas o ran datblygiad'. Bydd hyn yn disodli'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer canllawiau ar ddarpariaeth addysg ryw sy'n 'briodol i'r oedran'. Mae hyn yn cydnabod, er y bydd oedran yn parhau yn ffactor wrth benderfynu ynghylch darpariaeth, y bydd angen i ysgolion ystyried datblygiad corfforol a gwybyddol eu dysgwyr, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i brofiadau dysgwyr, wrth benderfynu ar gynllunio cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

3.57 Rydym hefyd yn cynnig gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol i ehangu'r gofyniad bod rhaid i ysgolion a gynhelir ddatblygu datganiad ysgrifenedig a'i gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i rieni a dysgwyr beth yw'r polisi ynghylch darparu addysg ryw, gan gynnwys pob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

3.58 Er mwyn cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer pob agwedd arall ar y cwricwlwm newydd, rydym hefyd yn cynnig diwygio deddfwriaeth bresennol fel nad yw'n orfodol i ysgolion ddarparu unrhyw bwnc cwricwlwm penodol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth. Ar hyn o bryd rhaid i ddysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion astudio Addysg Grefyddol. Yn y dyfodol, cynigir y bydd gan ddysgwyr yr hawl i ddewis cael yr addysg hon. Mae'n bwysig nodi, o dan y cynigion hyn, na fydd ysgolion yn cael eu hatal gan ddeddfwriaeth rhag parhau i ddarparu Addysg Grefyddol a/neu addysg ryw i ddisgyblion chweched dosbarth. Fodd bynnag, ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddisgyblion chweched dosbarth i fynd i wersi os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd canllawiau ar gael ar gyfer ysgolion i ategu'r dull gweithredu newydd hwn.

3.59 Ar hyn o bryd mae gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o addysg ryw - ond ddim o'r meysydd sydd yn rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol (nodir yn Adran 405 o *Ddeddf Addysg 1996*). Mae angen penderfynu ar y trefniadau priodol o ran hyn a'r hawl gyffelyb i dynnu plant allan o Addysg Grefyddol. Ceir trafodaeth bellach ar hyn ym mharagraffau 3.75 i 3.78.

Cwestiynau:

6. Ydych chi'n cytuno â gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n addas o ran oedran a datblygiad, yn orfodol i blant 3-16 oed?

7. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r pŵer gwneud canllawiau er mwyn iddo gael ei ddylunio i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran a datblygiad i'r plant sy'n ei derbyn?

8. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddewisol i ddysgwyr chweched dosbarth?

## Addysg Grefyddol

***Crynodeb o'r cynigion*:**

- Cadw'r gofyniad statudol i addysgu Addysg Grefyddol ym mhob ysgol a gynhelir a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir ond o fewn cyd-destun y cwricwlwm newydd i Gymru.

- Ar hyn o bryd, mae disgyblion cofrestredig mewn dosbarthiadau meithrin yn cael eu heithrio o Addysg Grefyddol. Cynigir diddymu'r eithriad er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob pwnc/elfen o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh), fel bod Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu i blant 3-16 oed.

- Cadw'r darpariaethau presennol sy'n amlinellu'r trefniadau ar gyfer addysgu'r maes llafur cytunedig mewn ysgolion penodol a diwygio'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn mabwysiadu maes llafur cytunedig.

- Cadw'r darpariaethau presennol mewn perthynas â'r ffordd y caiff addysg grefyddol ei chyflwyno mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.

- Diwygio'r darpariaethau presennol mewn perthynas â disgrifiad o Faes Llafur Cytunedig yn ogystal ag aelodaeth o Bwyllgor A o Gynadleddau Maes Llafur Cytunedig a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i gwmpasu safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol ond sy'n gyffelyb i safbwyntiau crefyddol.

### Y Trefniadau Presennol

3.60 Ar hyn o bryd, mae gan ysgolion ddyletswydd statudol i addysgu Addysg Grefyddol i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys disgyblion mewn chweched dosbarth, ac eithrio plant mewn dosbarthiadau meithrin.

### Addysg Grefyddol mewn Ysgolion

3.61 Mae ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol nad oes ganddynt gymeriad crefyddol yn dilyn y Maes Llafur Cytunedig (paragraff 2 o Atodlen 19 i *Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*).

3.62 Mae rhaid i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol[23] ddarparu addysg grefyddol yn unol â'r Maes Llafur Cytunedig oni bai bod rhiant yn gofyn bod ei blentyn yn derbyn addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd.

3.63 Mae rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol ddarparu addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd. Er hynny, os digwydd i'r rhieni ofyn amdano, rhaid iddo gael ei ddarparu yn unol â'r Maes Llafur Cytunedig (paragraff 3 a 4 o Atodlen 19 i Ddeddf 1998).

### Maes Llafur Cytunedig

3.64 Mae Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn datblygu cynnwys y cwricwlwm ar gyfer Addysg Grefyddol ym mhob ardal awdurdod lleol. Rhaid i'r gynhadledd gynnwys aelodau o bwyllgor sy'n cynrychioli athrawon; pwyllgor sy'n cynrychioli'r awdurdod lleol; a phwyllgor sy'n cynrychioli'r enwadau Cristnogol a'r prif draddodiadau crefyddol sy'n berthnasol i'r ardal. Rhaid i'r holl ysgolion cymunedol a gynhelir addysgu addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig a argymhellir gan y gynhadledd maes llafur cytunedig ac a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol.

## Trefniadau Newydd Arfaethedig

3.65 Yn unol â *Dyfodol Llwyddiannus*, rydym yn cynnig bod Addysg Grefyddol yn cael ei chadw fel gofyniad statudol i blant o 3 oed ymlaen, a'i bod yn rhan o MDPh y Dyniaethau.

3.66 Ein bwriad, hefyd, yw bod Addysg Grefyddol yn adlewyrchu ein perthynas hanesyddol a chyfoes â safbwyntiau athronyddol a chrefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. Felly, caiff y ddeddfwriaeth gyfredol ai diwygio i sicrhau bod y maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau anghrefyddol am y byd - rhai sy'n cyfateb i grefyddau (ee. dyneiddiaeth).

3.67 Bydd ein dull gweithredu yn cydnabod cyfrifoldeb lleol y Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig, yr awdurdodau lleol a lle'r maes llafur enwadol mewn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ond yn gwneud cysylltiad cliriach â'r dull gweithredu cenedlaethol.

3.68 Rydym yn cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â mabwysiadu maes llafur cytunedig er mwyn sicrhau bod rhaid i bob Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ac awdurdod lleol roi sylw dyledus i fframwaith i gefnogi Addysg Grefyddol sydd i'w

[23]Mae gan ysgol gymeriad crefyddol (hynny yw, ysgol ffydd) os yw wedi ei dynodi fel ysgol â chymeriad crefyddol drwy Orchymyn a wneir o dan adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Bydd y ddogfen yn cael ei datblygu gydag ymarferwyr arbenigol a phartneriaid allweddol fel Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol. Bydd yn egluro a datblygu ymhellach yr agweddau mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a amlinellir yn y canllawiau statudol sydd i'w llunio ar gyfer MDPh y Dyniaethau. Bydd ymgynghori cyson ag aelodau CYSAG a rhanddeiliaid allweddol gydol y cyfnod datblygu.

3.69 Bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol yn parhau i gyflwyno eu haddysg grefyddol enwadol a bydd canllawiau yn cael eu datblygu gan yr awdurdodau perthnasol er mwyn gwneud y cysylltiadau â MDPh y Dyniaethau.

3.70 Ar hyn o bryd, mae disgyblion cofrestredig mewn dosbarthiadau meithrin ysgolion wedi'u heithrio o Addysg Grefyddol. Cynigir bod yr eithriad yn cael ei ddiddymu i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob pwnc/elfen o'r MDPh. Rydym yn credu y gall dysgwyr o bob oed fanteisio ar yr wybodaeth am y sbectrwm eang o draddodiadau crefyddol, athronyddol a diwylliannol sy'n cael eu harddel gan bobl yng Nghymru. Bydd rhaid i'r Lleoliadau Meithrin a Gyllidir hynny gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru hefyd, bydd hyn yn cynnwys MDPh y Dyniaethau a disgwylir iddynt roi sylw i gynnwys y canllawiau statudol, yn ogystal â'u maes llafur cytunedig lleol.

3.71 Rydym yn cynnig deddfu i ddiwygio'r darpariaethau presennol ynghylch disgrifiad o Faes Llafur Cytunedig yn ogystal ag aelodaeth o Bwyllgor A o Gynadleddau Maes Llafur Cytunedig a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) i gwmpasu safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol ond sy'n cyfateb i safbwyntiau crefyddol. Mae hyn er mwyn egluro'r ddeddfwriaeth bresennol ac ystyried effaith *Deddf Hawliau Dynol 1998*, sy'n golygu y dylid darllen cyfeiriadau at safbwyntiau crefyddol fel safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol ond sy'n cyfateb i safbwyntiau crefyddol hefyd. Rydym eisoes wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Addysg yr Awdurdodau Lleol yn nodi'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd mewn ymateb i hyn.

3.72 Cedwir hefyd y ddarpariaeth a ddaw o Atodlen 19 i *Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*:

> *"No agreed syllabus shall provide for religious education to be given to pupils at a school to which this paragraph applies by means of any catechism or formulary which is distinctive of a particular religious denomination (but this is not to be taken as prohibiting provision in such a syllabus for the study of such catechisms or formularies)."*

*3.73* Ar hyn o bryd, rhaid i'r holl ddysgwyr y chweched dosbarth mewn ysgolion astudio Addysg Grefyddol. Yn y dyfodol, cynigir bod ganddynt hawl i dderbyn dysgu a rhaid i ysgolion ei ddarparu os oes gofyn amdano - bydd yn ddewisol. Mae'n bwysig nodi na fydd ysgolion yn cael eu hatal gan ddeddfwriaeth rhag parhau i ddarparu Addysg Grefyddol i ddisgyblion chweched dosbarth. Er hynny, ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddisgyblion chweched dosbarth i fynd i wersi Addysg Grefyddol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd canllawiau ar gael ar gyfer ysgolion i ategu'r dull gweithredu newydd hwn.

3.74 Ar hyn o bryd, mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant allan o Addysg Grefyddol. Mae angen penderfynu ar drefniadau priodol ar gyfer hyn a'r hawl gyffelyb i dynnu plentyn allan o addysg rhyw yn y system bresennol. Ceir trafodaeth bellach ar hyn isod.

Cwestiynau:

9. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol?
10. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wneud Addysg Grefyddol yn ddewisol i ddysgwyr yn y chweched dosbarth?

## Yr hawl i dynnu plant allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

3.75 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu bod:

- Hawl gan riant disgybl i dynnu ei blentyn allan o Addysg Grefyddol (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol);
- Hawl gan riant disgybl mewn ysgol i dynnu ei blentyn allan o addysg rhyw (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol), oni bai ei fod yn rhan o raglen astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol; a
- Yn y ddau achos, dim ond rhiant a all wneud cais i dynnu ei blentyn allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb . Felly, ni all disgybl, waeth beth fo'i oedran, gan gynnwys disgybl yn y chweched dosbarth, dynnu allan ar unrhyw adeg a rhaid iddynt ddibynnu ar y rhiant i wneud hynny drostynt.

3.76 Mae'r trefniadau hyn wedi bod yn eu lle ers degawdau ac nid ydynt wedi newid. Mae hawl plant a phobl ifanc i gael mynediad at gwricwlwm sy'n cyflawni'r pedwar diben yn greiddiol i'r cwricwlwm newydd.

3.77 Oherwydd hynny, rydym yn awyddus i edrych ar ddulliau gweithredu posibl i foderneiddio'r trefniadau hyn. Wrth ystyried dull gweithredu newydd posibl, rydym yn awyddus i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc wrth galon pob ystyriaeth ond hefyd bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r effaith ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd eisiau sicrhau nad yw unrhyw newidiadau yn cynyddu'r baich ar ysgolion ac athrawon.

3.78 Byddem yn croesawu safbwyntiau ar yr achos o blaid newid ac unrhyw syniadau penodol ar sut i foderneiddio'r maes hwn.

Cwestiynau:

11. A ddylid cadw’r hawl i dynnu allan o AG ac ACR?

12. Os yw'r hawl i dynnu allan yn cael ei gadw, a ddylai barhau'n hawl i'r rhiant yn unig (mae rhiant yn cynnwys y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu'r rhai sy'n gofalu am y plentyn)?

13. Os caiff yr hawl i dynnu allan ei dileu, pa ddewis arall, os o gwbl, ddylai fod yn ei le?

## Y Gymraeg a Saesneg

3.79 Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* [24] yn nodi gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a chreu Cymru gwirioneddol ddwyieithog dros y tymor hir. Mae gan y cwricwlwm newydd swyddogaeth bwysig i'w chyflawni yn ategu'r uchelgais hwn.

***Crynodeb o'r cynigion***:

- Dyletswydd ar bob ysgol a Lleoliad Meithrin a Gyllidir i addysgu Cymraeg, a hynny fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3 i 16 oed.
- Cael gwared ar y rhaglenni astudio Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a rhoi un continwwm dysgu yn eu lle fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Pŵer i Weinidogion Cymru a fydd yn caniatáu iddynt ragnodi'r diffiniadau ar gyfer y categorïau iaith ysgolion drwy is-ddeddfwriaeth.
- Dyletswydd ar bob ysgol a Lleoliad Meithrin a Gyllidir i addysgu Saesneg, fel elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru. *[Gweler datganiad gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bwriad y bydd trochi plant yn y Gymraeg yn parhau o dan drefniadau'r cwricwlwm newydd.]*

### Y trefniadau presennol

3.80 Ar hyn o bryd, mae Cymraeg yn bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed. Yn y cwricwlwm presennol, mae dysgwyr mewn "ysgolion Cymraeg"[25] yn dilyn y rhaglen Cymraeg (iaith

[24] https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy

[25] Mae ysgol yn ysgol Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau canlynol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).
(a) addysg grefyddol, a
(b) y pynciau ar wahân i Saesneg a Cymraeg sy'n bynciau sylfaen mewn perthynas â disgyblion yn yr ysgol.

gyntaf) fel pwnc craidd. Mewn “ysgolion nad ydynt yn ysgolion Cymraeg” mae dysgwyr yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith fel pwnc sylfaen.

3.81 Mae dysgwyr yn cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 a 3. Mae'n ofynnol i ddysgwyr sy'n dilyn y rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf gymryd prawf darllen Cymraeg ym mlynyddoedd 2-9. Mae TGAU ar gael fel cymwysterau i ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf, cyflwynwyd TGAU Cymraeg Iaith a Cymraeg Llên ym mis Medi 2015 ac fe'u dyfarnwyd am y tro cyntaf yn haf 2017. Mae dysgwyr yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

3.82 Cyflwynwyd TGAU newydd Cymraeg Ail Iaith i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2017, ac bydd dysgwyr yn cael eu hasesu am y tro cyntaf yn haf 2019. Fe ymgynghorodd Cymwysterau Cymru, fel rheoleiddiwr annibynnol Cymru, ar y cynigion i newid TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mae'r TGAU Cymraeg Iaith ar ei newydd wedd yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru ac yn rhoi mwy o bwyslais ar siarad, gwrando a defnyddio'r iaith, sy'n golygu ei fod yn cyd-fynd fwy â TGAU Cymraeg (iaith gyntaf).

**Y Cyd-destun am newid**

3.83 Nod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am gynllunio a strategaeth tymor hir. Un o'r saith nod yw creu Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu, ac un o'r dangosyddion yw canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg fel y nodir yn y *Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru*.[26]

3.84 Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* yn nodi gweledigaeth a strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair prif thema, ac mae'n cynnwys y canlynol fel un o'r prif newidiadau gweddnewidiol sydd eu hangen o fewn y sector addysg statudol er mwyn cyflawni'r weledigaeth:

> *“gweddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70 y cant o’r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.”*

3.85 Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* yn nodi camau sydd i'w cymryd i roi diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system addysg yng Nghymru ar waith. Mae datblygu dull gweithredu gweddnewidiol mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu’r Gymraeg, gyda’r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu siarad yr iaith Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol, wrth galon ein gwaith i ddiwygio’r cwricwlwm.

[26]https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf

3.86 Yn 2013, nododd adolygiad annibynnol o Gymraeg ail iaith, dan arweiniad yr Athro Sioned Davies:[27]

> "*ei bod yn unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith... Mae cyrhaeddiad isel mewn Cymraeg ail iaith wedi cael ei dderbyn fel y norm. Os ydym o ddifrif ynglŷn â datblygu siaradwyr Cymraeg a gweld yr iaith yn ffynnu, rhaid newid cyfeiriad, a hynny fel mater o frys cyn ei bod yn rhy hwyr*."

3.87 Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth a dderbyniwyd oedd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygu continwwm iaith at ddibenion cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac ar gyfer cofnodi cyrhaeddiad. Byddai'n hwyluso system o gynnydd a dilyniant ar draws pob cyfnod dysgu a hefyd bydd yn fanteisiol o ran rhoi diffiniad clir i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr o'r lefelau sgiliau a gyflawnir gan ddysgwyr. Roedd yr adolygiad yn argymell y dylid datblygu un continwwm dysgu ar gyfer Cymraeg, a chanddo ddisgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, lleoliadau dwyieithog a lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Byddai datblygu continwwm o'r fath yn golygu bod yr holl ddisgyblion yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm ac yn cael eu hasesu yn ôl yr un fframwaith, gan gael gwared â'r term 'Cymraeg Ail Iaith' o'r rhaglen astudio honno.

3.88 Argymhellwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus* bod dysgu Cymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed ac y dylid canolbwyntio eto ar ddysgu Cymraeg fel ffordd o gyfathrebu yn bennaf, yn enwedig deall a chyfathrebu ar lafar.

**Cyfrwng addysgu a'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm**

3.89 Bydd i ba raddau y mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg yn amrywio, yn dibynnu ar iaith y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae ysgolion Cymraeg yn cyflwyno'r mwyafrif o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae dysgwyr yn cael eu trwytho yn yr iaith yn gynnar. Gall ysgolion dwyieithog gyfeirio at ystod eang o leoliadau addysgu a dysgu sy'n cynnwys gwahanol raddau o Gymraeg wrth gyflwyno. Yn gyffredinol, dim ond Cymraeg fel pwnc y mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn ei gyflwyno yn Gymraeg, gyda gweddill yr amser cwricwlaidd yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Saesneg.

3.90 Yn gyffredinol, mae caffael iaith fwyaf llwyddiannus pan fo'r iaith yn cael ei defnyddio fel cyfrwng dysgu mewn cyd-destunau ymarferol a pherthnasol. Ar wahân i ysgolion Cymraeg penodol, mae yna eisoes enghreifftiau niferus o gyflwyno dulliau newydd o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Er enghraifft, mae rhai ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg wedi datblygu cyfleoedd i gynnwys gwahanol raddau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws rhai pynciau cwricwlaidd er mwyn ehangu defnydd dysgwyr a'u caffaeliad o'r Gymraeg. Mae nifer o ysgolion uwchradd hefyd wedi datblygu cyfleoedd ar gyfer addysgu nifer cyfyngedig o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3, drwy weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng Gymraeg yn ddwys yn ystod y cyfnod pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

[27] Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

3.91 Mae cyfleoedd o'r fath yn ffyrdd posibl o godi safonau mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Gellir estyn yr arferion a rhaid annog dulliau creadigol o gyfoethogi sgiliau disgyblion yn y Gymraeg.

3.92 Mae dogfen Llywodraeth Cymru, sef, *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*[28](Hydref 2007) yn rhoi cyfres o ddiffiniadau i ddisgrifio natur ieithyddol ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae'r diffiniadau hyn yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran rhoi gwybodaeth glir i rieni ac i hwyluso dealltwriaeth o'r mathau o ddarpariaeth iaith sydd ar gael drwy Gymru. Defnyddir y diffiniadau hefyd mewn cynigion trefniadaeth ysgolion. Gallai newid yn y graddau o addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgol sbarduno'r angen am gynnig i newid trefniadaeth ysgolion (mae manylion ynghylch pryd y byddai newid o'r fath yn golygu bod yn rhaid cael cynnig trefniadaeth ysgolion yn Atodlen 2 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

3.93 Daeth *Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020*[29] i'r casgliad bod rhaid symleiddio'r diffiniadau o gategorïau ieithyddol ysgolion. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Annibynnol ym mis Mai 2018, er mwyn gweithredu argymhellion yr adolygiad, ac mae arbenigwyr ym maes iaith wedi eu contractio i wneud y gwaith o symleiddio'r diffiniadau o gategorïau ieithyddol ysgolion. Bydd y gwaith yn cynnwys adolygu'r modelau a ddefnyddir mewn ysgolion yn rhyngwladol, a datblygu categorïau newydd sy'n gallu cael eu defnyddio i lunio gwaith cynllunio ysgolion a chynllunio'r cwricwlwm. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod 2019 a bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y categorïau drafft newydd yn cael ei wneud yn ystod hydref 2019.

**Cynnydd ac Asesu**

3.94 Un o'r prif ystyriaethau wrth i ni ddatblygu'r cwricwlwm newydd yw sut i asesu dysgwyr ar hyd y continwwm. Rydym eisiau sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd a llwyddo i gael cymwysterau priodol fel cydnabyddiaeth o'u dysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen trosglwyddo a chynllunio gofalus wrth symud o'r system bresennol ar gyfer rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf a Cymraeg ail iaith.

3.95 Roedd y dull gweithredu o ran cynnydd a argymhellwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn cydnabod y bydd plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn gwella ar wahanol gyflymder. Mae hyn yn arbennig o wir am gaffael iaith. Mae natur ieithyddol ysgolion yng Nghymru yn golygu y bydd rhaid i'r cynnydd o ran y Gymraeg gael ei ddiffinio yn unol ag iaith yr ysgol. Mae hynny'n golygu bod dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd yn arafach na dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg ac y gall natur caffael iaith fod yn wahanol.

---

[28] https://beta.llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg
[29] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-2017-i-2020-adroddiad-terfynol

**Y Trefniadau Newydd Arfaethedig**

3.96 Y bwriad yw cynnwys darpariaeth i'r Gymraeg fod yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer yr holl ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol (3-16 oed).

3.97 Rydym yn cynnig y dylai Saesneg hefyd fod yn elfen orfodol yn y ddeddfwriaeth, gan adlewyrchu ein hymrwymiad cyfreithiol, ein hymrwymiad polisi a'n hymrwymiad addysgol i ddwyieithrwydd. Er nad yw Saesneg yn un o'r pynciau hynny sydd angen statws statudol yn ôl *Dyfodol Llwyddiannus*, mae'n cael ei gydnabod, ochr yn ochr â'r Gymraeg ym mhrif nodweddion y pedwar diben.

3.98 Bydd gofyniad ar gyfer Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol yn cael ei nodi ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer pob dysgwr. Ar hyn o bryd, bydd cynnwys arfaethedig Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (gan gynnwys yr elfennau y cyfeirir atynt ar hyn o bryd fel Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig; Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiadau, a'r Deilliannau Cyflawni) yn cael ei nodi mewn canllawiau statudol a bydd yn seiliedig ar un continwwm ar gyfer dysgu ieithoedd.

3.99 O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu newydd, bydd yr holl ddysgwr yn dilyn yr un cwricwlwm ar gyfer dysgu Cymraeg ar hyd y continwwm, gan ddileu'r termau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a dileu'r rhaglenni astudio cysylltiedig. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi ei lunio i gydnabod bod cyflymder y dysgu yn amrywio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu diwygio bob tair i bum mlynedd er mwyn cynyddu'r her yn raddol ac i adlewyrchu bod profiadau dysgwyr o ddysgu Cymraeg yn newid wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith gam wrth gam ac wrth i ni weithio tuag at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd ag argymhelliad yr Athro Davies sy'n *"creu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg a fyddai'n cynnwys disgwyliadau ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg"*.

3.100 Er mwyn nodi pa Ddeilliannau Cyflawni fydd yn gymwys i wahanol ysgolion yn ystod y cyfnod pontio, bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a fyddai yn caniatáu iddynt ragnodi'r diffiniadau ar gyfer y categorïau iaith i'r ysgolion hynny. Bydd y diffiniadau hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion cynllunio cwricwlwm a threfniadaeth ysgol.

3.101 O fewn y cwricwlwm newydd, bwriedir ailenwi elfen Ieithoedd Tramor Modern y cwricwlwm yn Ieithoedd Rhyngwladol. Y bwriad yw na fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn darparu ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn benodol. Yn lle hynny, rydym yn cynnig ei fod yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig yn y canllawiau statudol ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd. Mater i'r ysgolion fydd penderfynu a ddylid addysgu ieithoedd rhyngwladol, ac i ba raddau ac ym mha ystod oedran y dylid ei addysgu. Wrth wneud hynny, byddai angen i ysgolion roi sylw dyledus i'r canllawiau wrth benderfynu ar eu dull gweithredu o ran addysgu Ieithoedd

Rhyngwladol. Cynigir bod y canllawiau statudol ar y cynnwys a'r Deilliannau Cyflawni yn argymell bod dysgwyr yn dechrau dysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar ddiwedd yr ysgol gynradd ac yn gosod Deilliannau Cyflawni sydd yn cydnabod y bydd pa mor gyflym y mae dysgu Iaith neu Ieithoedd Rhyngwladol yn wahanol i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

**Beth fydd yn newid?**

3.102 Ni fydd newid sylweddol yn y ddeddfwriaeth, gan fod y Gymraeg yn rhan statudol o'r cwricwlwm presennol. Er hynny, cynigir na fydd Rhaglenni Astudio yn gwahaniaethu rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Cymraeg ail iaith mwyach.

3.103 Ni fydd llawer o newid i athrawon a dysgwyr yn y dosbarth mewn ysgolion Cymraeg ond bydd rhaid i ysgolion cyfrwng Saesneg ganolbwyntio mwy ar eu darpariaeth Gymraeg.

3.104 Rydym yn edrych ar y system yn ei chyfanrwydd, er mwyn sicrhau bod digon o amser i wneud y newidiadau gofynnol er mwyn gwneud yn siŵr bod ysgolion yn canolbwyntio ar ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'w dysgwyr er mwyn iddynt ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Rydym eisoes yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn gallu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth er mwyn paratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Trwy'r consortia rhanbarthol, byddwn hefyd yn annog ysgolion i gynllunio gwelliannau'n strategol, er mwyn cynnwys y gwaith o ystyried cynllunio'r gweithlu, a datblygu diwylliant ac ethos o fewn yr ysgol i hybu'r Gymraeg. Bydd disgwyl i ysgolion hefyd hunanwerthuso eu cynnydd o fewn y fframwaith atebolrwydd a gwerthuso.

Cwestiwn:

14. Beth yw eich barn ar y dull gweithredu a gynigir ar gyfer sicrhau bod addysgu a dysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru?

## Y Fframwaith Asesu a Gwerthuso

3.105 Mae'r angen am un Fframwaith Asesu a gwerthuso y cytunir arno ar lefel genedlaethol yn un o'r prif argymhellion polisi yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Cynigir y bydd y fframwaith hwn yn glir o ran y mathau gwahanol o asesiadau a'u swyddogaeth, ac yn gwahaniaethu rhwng y gweithgareddau hynny sy'n addysgu a dysgu a'r gweithgareddau hynny a fydd yn cyfrannu at hunanwerthuso, atebolrwydd allanol a monitro cenedlaethol.

3.106 Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth a fydd yn gallu llywio penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau i gynorthwyo dysgu. Dylid ei ddefnyddio er budd y disgyblion; ac er mwyn galluogi athrawon i addasu strategaethau addysgu i gefnogi eu cynnydd.

3.107 Hyd at y flwyddyn academaidd hon, mae asesiadau athrawon hefyd wedi bod yn rhan allweddol o'n system atebolrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data asesiadau athrawon ar lefel awdurdod lleol fel datganiad ystadegol blynyddol; wedi darparu data cymharol ysgolion o fewn pecynnau ysgolion; a chyhoeddi gwybodaeth asesiadau athrawon ar lefel ysgol ar Fy Ysgol Leol.[30] Rydym yn cydnabod bod y ffiniau rhwng asesu ac atebolrwydd wedi bod yn annelwig yn rhy aml, a bod hynny wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol yn yr ystafell ddosbarth ac addysgu ac asesu sy'n camliwio.

3.108 Mae tystiolaeth o effaith rhoi 'gwerth uchel' ar ddefnyddio gwybodaeth asesu yn cael ei dderbyn yn rhyngwladol. Wrth sôn am 'werth uchel', rydym yn golygu system sy'n gosod pwysau gormodol ar ddeilliannau a lle mae 'methiant' neu fethiant ymddangosiadol yn arwain at ganlyniadau sydd y tu hwnt i'r hyn a fwriedir neu i'r hyn sy'n briodol. Yn yr achos hwn, mae'n golygu bod asesiad dysgwr, erbyn hyn, yn cael ei weld fel adlewyrchiad o berfformiad athrawon ac ysgolion, yn hytrach na rhywbeth lle mae'r dysgwr yn arwain yr addysgu a'r cymorth i'w alluogi i gyrraedd ei botensial. O ganlyniad, efallai bod dewisiadau yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu buddiannau'r athro neu'r ysgol yn hytrach na'r dysgwr. Cyfeirir at y materion mewn adroddiadau gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a chan academyddion blaenllaw ym maes asesu. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn dyfynnu adroddiad yr OECD, sef *'Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment'* (2013):

> *"Seiniwyd y rhybudd hwn mewn adroddiad pwysig gan yr OECD ar werthuso ac asesu: '…high-stakes uses of evaluation and assessment results might lead to distortions in the education process…', a hefyd '…it is important to design the accountability uses of evaluation and assessment results in such a way that these undesirable effects are minimised'*[31]

3.109 Er mwyn ailsefydlu prif ddiben asesu a'i ddatgysylltu o atebolrwydd gwerth uchel[32] mae Llywodraeth Cymru wedi peidio â chyhoeddi data asesiadau a phrofion cenedlaethol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol, er mwyn helpu i atal y data hyn rhag cael eu defnyddio i farnu ysgolion.

3.110 Cydnabyddir yn eang bod datblygu trefniadau asesu a gwerthuso sy'n gyson o ran amcanion ac sy'n glir o ran perthynas gwahanol elfennau â'i gilydd, yn allweddol i adeiladu systemau ysgolion cryfach, systemau sy'n canolbwyntio ar wella cynnydd dysgwyr. Cynigir bod y trefniadau hyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio Fframwaith Asesu a Gwerthuso sy'n cadw'r dysgwr yn greiddiol i system sy'n canolbwyntio ar ddatblygu

---

[30] http://fyysgolleol.llyw.cymru
[31] https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf
[32] Yn y cyd-destun hwn, wrth gyfeirio at 'gwerth uchel' rydym yn golygu system sy'n gosod pwysau gormodol ar ddeilliannau a lle mae 'methiant' neu fethiant ymddangosiadol yn arwain at ganlyniadau sydd y tu hwnt i'r hyn a fwriedir neu sy'n briodol. hynny yw, mae'n golygu bod asesiad dysgwr, yn dod yn system sy'n cael ei gweld fel adlewyrchiad o berfformiad athrawon, adrannau ac ysgolion, yn hytrach na rhywbeth lle mae'r dysgwr yn arwain yr addysgu a'r cymorth i'w alluogi o gyrraedd ei botensial. O ganlyniad, efallai bod dewisiadau yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu buddiannau'r athro neu'r ysgol yn hytrach na'r dysgwr.

ar bob lefel i wella addysgu a dysgu. Mae'r adran nesaf yn nodi trefniadau asesu dysgwyr, ac mae trefniadau gwerthuso yn dilyn hynny.

## Trefniadau Asesu Dysgwyr

***Crynodeb o'r cynigion*:**

- Ailddeddfu'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ar gyfer trefniadau asesu, a ddarperir ar eu cyfer ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Cwricwlwm, fel bod y rhain ar gael i gefnogi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru.

- Dyletswydd i'w gosod ar benaethiaid i osod Deilliannau Cyflawni ar gyfer pob un o'r Camau Cynnydd. Bydd angen i benaethiaid roi sylw dyledus i ganllawiau statudol wrth bennu beth fydd y Deilliannau Cyflawni newydd. Bydd ysgolion yn datblygu asesiadau ar sail y Deilliannau Cyflawni a ddisgrifir ym mhob Cam Cynnydd.

- Pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer y trefniadau asesu o dan y Fframwaith Asesu a Gwerthuso.

### Y Trefniadau Presennol

3.111 Mae nifer o ofynion asesu statudol o fewn y trefniadau presennol. Mae'r pwerau i wneud y trefniadau hyn i'w cael yn adran 108 o *Ddeddf Addysg 2002*. Maent yn darparu y gall Gweinidogion Cymru nodi'r trefniadau asesu y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen neu'r Cyfnodau Allweddol o fewn gorchmynion.

3.112 Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ragnodi, mewn Gorchmynion, ddeilliannau dymunol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a thargedau cyrhaeddiad ar gyfer Cyfnodau Allweddol. Mae'r ddau yn nodi'r safon ddisgwyliedig ar gyfer perfformiad dysgwyr. Mae deilliannau dymunol yn cael eu gwneud ar ffurf datganiadau sy'n disgrifio'r math ac ystod o gyflawniadau sy'n nodweddiadol o blant yn y Cyfnod Sylfaen. Tra bo targedau cyrhaeddiad yn ddisgrifiadau o lefelau sy'n nodi ystod perfformiad y dylai dysgwr nodweddiadol sy'n gweithio ar lefel benodol ei ddangos. Mae athrawon yn asesu dysgwyr yn erbyn y deilliannau dymunol a'r targedau cyrhaeddiad hyn, a rhaid iddynt adrodd am y canlyniadau a gyflawnwyd.

3.113 Er mwyn sicrhau bod y trefniadau asesu hyn yn gweithio yn ymarferol, mae nifer o bwerau atodol o dan adran 108 o *Ddeddf Addysg 2002* hefyd.

3.114 Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau i wneud Gorchymyn o dan adran 108 o *Ddeddf Addysg 2002* fel ei bod yn ofynnol i ysgolion wneud y canlynol ar hyn o bryd:

- Cynnal asesiad sylfaenol o bob plentyn o fewn y chwe wythnos gyntaf wedi iddynt gyrraedd y flwyddyn derbyn;

- Cynnal asesu crynodol[33] ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol;
- Cynnal asesiad ffurfiannol[34] o sgiliau llythrennedd a rhifedd;
- Gweinyddu profion cenedlaethol; a
- Chymryd rhan yn y gwaith o gymedroli ar gyfer asesiadau athrawon ar gyfer clystyrau.

### Adrodd i rieni

3.115 Mae adran 408 o *Ddeddf Addysg 1996* yn darparu pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer adrodd i rieni. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r ddarpariaeth hon er mwyn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid adrodd i rieni.

### Cynllunio ar gyfer pontio

3.116 Mae adran 198 o *Ddeddf Addysg 2002 (trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd)* yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion uwchradd a'r ysgolion sy'n eu bwydo lunio cynlluniau pontio ar y cyd er mwyn hwyluso trosglwyddiad y disgyblion sydd yn yr ysgolion cynradd hynny i'r ysgol uwchradd. Cynigir cadw'r ddarpariaeth hon.

## Y Trefniadau Newydd Arfaethedig

3.117 Rhaid i'n trefniadau asesu newydd unioni'r pwyslais sydd ar asesu crynodol ar hyn o bryd a sicrhau bod asesu ffurfiannol yn cael blaenoriaeth fel rhan hanfodol a naturiol o'r broses addysgu. Rydym yn gwybod bod asesu wedi datblygu i fod yn gyfystyr ag atebolrwydd yn hytrach nag â dysgu. Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hyn o fewn ein trefniadau asesu a gwerthuso er mwyn sicrhau bod yr asesu yn cefnogi'r cynnydd o ran dysgu.

3.118 Mae *Dyfodol Llwyddiannus* wedi nodi bod y system bresennol wedi datblygu i ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau cyffredinol sy'n gweddu orau o ran perfformiad. O ganlyniad i hyn, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i gynnydd gyda phenderfyniadau sy'n gweddu orau yn cuddio amrywiaeth eang mewn gwahanol agweddau ar ddysgu. Rydym yn cynnig y bydd y system 'lefelau' presennol yn cael eu dileu. Bydd ysgolion yn datblygu asesiadau ar sail y Deilliannau Cyflawni a ddisgrifir ym mhob Cam Cynnydd. Bydd Camau Cynnydd yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth ac maent wedi cael eu gosod yn fwriadol bod tair blynedd er mwyn caniatáu i athrawon gynllunio ac asesu'r dysgu heb gyfeirio'n gyson at feini prawf sydd wedi'u pennu'n allanol.

---

[33]Cyfeirir at asesiad crynodol hefyd fel asesu dysgu ac mae'n canolbwyntio mwy ar asesu natur gronnus yr hyn sydd wedi ei ddysgu ar adegau priodol.

[34]Dylai asesu ffurfiannol fod yn rhan hanfodol a naturiol o'r broses addysgu. Cyfeirir ato hefyd fel asesu dysgu Mae asesu dysgu yn cyfeirio at y broses o ddod o hyd i ble mae dysgwyr arni o fewn continwwm dysgu, lle maent angen mynd iddo a sut orau i gyrraedd yno.

3.119 Bydd llawer o nodweddion y system asesu ar hyn o bryd yn parhau yn berthnasol i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae'r angen i ddeall lle mae'r dysgwyr arni wrth ddechrau ar addysg statudol a sefydlu asesiad sylfaen, yr angen am asesu ffurfiannol parhaus; asesiadau athrawon cyson a chynllunio i gefnogi trosglwyddo dysgwyr ac adrodd i'r rhieni yn parhau'n hanfodol. Bydd manylion y trefniadau hyn yn newid i adlewyrchu a chefnogi'r cwricwlwm newydd.

3.120 Mae'r pwerau presennol yn ein galluogi i wneud mwyafrif y newidiadau sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer asesu.

3.121 Er enghraifft, rydym eisoes yn gwneud newidiadau i'n profion cenedlaethol. Ac rydym wedi cyflwyno asesiadau personol. Diben yr asesiadau yw helpu cynnydd dysgwyr, drwy ddeall beth y maent yn gallu ei wneud, yr hyn sydd angen gweithio arno ac ar y camau nesaf i wneud hyn. Mewn asesiadau ’personol' neu 'addasol', mae'r cwestiynau a ddewisir wedi'u seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Mae hynny'n cynnig profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr.

3.122 Rydym yn cynnig ailddeddfu'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ar gyfer trefniadau asesu, fel bod y rhain ar gael i gefnogi Cwricwlwm newydd i Gymru. Felly, rydym yn cynnig darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn i bennu’r trefniadau asesu hynny y maent yn eu hystyried yn briodol, mewn perthynas â phob Maes Dysgu a Phrofiad.

3.123 Rydym hefyd yn cynnig deddfu'r pwerau atodol canlynol er mwyn sicrhau bod y trefniadau asesu hyn yn gweithio'n ymarferol.

i. Pŵer i nodi manylion y trefniadau asesu mewn dogfen allanol.

ii. Pŵer i ganiatáu Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau i'r pennaeth, corff llywodraethu, awdurdod lleol, person sy'n darparu addysg feithrin a gyllidir (o bosib meithrinfa breifat) ac unrhyw bersonau eraill sy'n cael ei barnu fel personau priodol mewn perthynas ag unrhyw Orchymyn sy'n rhagnodi trefniadau asesu.

iii. Pŵer i wneud gorchymyn ar gyfer pennu i ba raddau y mae'r cwricwlwm ac unrhyw drefniadau asesu, gan gynnwys rhoi'r trefniadau hyn ar waith, yn cyflawni'r diben y gwneir y trefniadau ar eu cyfer (hynny yw, asesu effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu), ond gan wneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â chyfreithiau preifatrwydd.

iv. Pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi pwerau i bennaeth, corff llywodraethu, awdurdod lleol a pherson sy'n darparu addysg Feithrin a Gyllidir (o bosib meithrinfa breifat), wrth arfer unrhyw swyddogaeth mewn cysylltiad ag asesu effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r Trefniadau asesu i fynd i mewn i fangre'r ysgol, neu yn ôl yr achos, fangre lle y darperir yr addysg feithrin a gyllidir:

- Goruchwylio gweithredu a threfniadau asesu'r cwricwlwm, ac
- I archwilio dogfennau a gwybodaeth ac erthyglau eraill, a chymryd copïau ohonynt.

v. Pŵer i alluogi y caiff Gorchymyn Trefniadau Asesu awdurdodi Gweinidogion Cymru i wneud y ddarpariaeth hynny sy'n rhoi effaith lawn i'r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn, neu fel arall sy'n ategu'r ddarpariaeth honno, fel y bydd Gweinidogion Cymru yn ei weld yn fuddiol.

3.124 Mae'r pwerau atodol hyn yn estyn y pwerau presennol drwy:

- ganiatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau i unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru (yn ychwanegol at benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol); a
- diwygio asesu effeithlonrwydd y trefniadau asesu i asesu effeithlonrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gan gydnabod bod y cwricwlwm yn ganolog a bod gan asesu rôl ategol.

**Y trefniadau Newydd Arfaethedig ar gyfer Deilliannau Cyflawni**

3.125 Ni fydd gan Weinidogion Cymru bŵer i ragnodi deilliannau dymunol a thargedau cyrhaeddiad drwy Orchymyn mwyach. Yn lle hynny, bydd dyletswydd ar benaethiaid i osod Deilliannau Cyflawni yn erbyn pob un o'r Camau Cynnydd ar gyfer eu disgyblion. Bydd Camau Cynnydd yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth ac maent wedi cael eu gosod yn fwriadol bob tair blynedd er mwyn caniatáu i athrawon gynllunio ac asesu’r dysgu heb gyfeirio’n gyson at feini prawf sydd wedi’u pennu’n allanol. Byddai deilliannau cyflawni yn nodi'r safon ddisgwyliedig ar gyfer perfformiad disgyblion.

3.126 Cynigir bod y Deilliannau Cyflawni hyn yn dod ar ffurf datganiadau sy'n disgrifio'r math a'r ystod o gyflawniadau sy'n nodweddiadol o blant yn ystod pob Cam Cynnydd. Wrth benderfynu ar ddeilliannau plentyn ym mhob Cam Cynnydd, dylai'r athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n gweddu orau i berfformiad dysgwr. Byddai gan benaethiaid ddisgresiwn i bennu beth yw'r Deilliannau Cyflawni ond byddai rhaid rhoi sylw dyledus i'r Deilliannau Cyflawni a nodir gan Weinidogion Cymru o fewn canllawiau statudol. Bydd ysgolion yn datblygu asesiadau ar sail y Deilliannau Cyflawni a ddisgrifir ym mhob Cam Cynnydd.

3.127 Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd ag ethos cyffredinol y ddeddfwriaeth o ran darparu mwy o ryddid i ysgolion mewn perthynas ag addysgu ac asesu.

**Trefniadau Newydd Arfaethedig ar gyfer Canllawiau Statudol**

3.128 Rydym yn cynnig cynnwys darpariaeth yn y ddeddfwriaeth i roi canllawiau statudol ar gyfer y trefniadau asesu o dan y Fframwaith Asesu a Gwerthuso, a fydd yn cynnwys e-bortffolios. Bydd hyn yn nodi'r gofynion statudol ac yn cynnwys canllawiau y dylai ysgolion, darparwyr meithrin a gyllidir, ac awdurdodau lleol roi sylw dyledus iddynt wrth wneud cynlluniau ar gyfer asesiadau ac wrth asesu dysgu.

3.129 Bydd hefyd yn ein galluogi i roi canllawiau statudol ar gyfer E-bortffolios. Rydym yn datblygu system ar-lein a fydd yn galluogi pob dysgwr ym mhob lleoliad a gynhelir (3-16 oed) i greu a bod yn berchen ar e-bortffolio. Bydd e-bortfolios yn rhoi gallu i

ddysgwyr arddangos eu gwaith, eu llwyddiannau a'u profiadau o fewn yr ysgol a thu allan iddi. Byddant yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr ac yn cyfrannu at y Pedwar Diben Addysg fel y'u disgrifir yn *Dyfodol Llwyddiannus*.

Cwestiwn:

15. Beth yw eich barn am y cynigion deddfwriaethol er mwyn galluogi'r trefniadau asesu newydd?

## Trefniadau Gwerthuso

***Crynodeb o'r cynigion***

- Rydym yn cynnig defnyddio ein pwerau presennol i gefnogi'r trefniadau gwerthuso newydd ac nid ydym yn cynnig unrhyw ddarpariaeth newydd yn y ddeddfwriaeth.

### Y trefniadau presennol

3.130 Mae'r system addysg, ac elfennau o fewn i'r system, yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd drwy ystod o brosesau atebolrwydd, er enghraifft:

- Mae ysgolion yn atebol yn y lle cyntaf i gyrff llywodraethu. Mae eu dyletswyddau wedi eu nodi mewn deddfwriaeth (nodir yn bennaf yn Rhan 3 o *Ddeddf Addysg 2002*);
- Hunanadolygu gan ysgolion ar sail Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a chymharu gyda'r teulu o ysgolion tebyg. Mae hyn yn llunio eu cynllun datblygu ysgol[35];
- Dyletswyddau statudol awdurdodau lleol a'r swyddogaethau gwella ysgolion sy'n cael eu cyflawni gan y consortia rhanbarthol. Mae hyn yn ddarostyngedig i graffu democrataidd yn lleol yn ogystal â'r trefniadau gweithio o fewn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol;
- Mae'r gyfres bresennol o fesurau perfformiad a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn bwletinau statudol ac ar wefan Fy Ysgol Leol;
- Y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion;
- Arolygiadau, adroddiadau blynyddol ac adroddiadau thematig Estyn (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi); a
- Cymryd rhan yn arolwg Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yr OECD bob tair blynedd.

[35] Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014

3.131 Nododd arolwg polisi addysg Cymru[36] gan yr OECD yn 2014 bod cyfoeth o ran data asesu a gwerthuso ar gael ar wahanol lefelau i wella polisi ac arferion. Er hynny, gwelwyd bod diffyg cydlyniant yn y trefniadau asesu a gwerthuso yn eu cyfanrwydd a nodwyd, *"…Wales has struggled to strike a balance between accountability and improvement" (Saesneg yn unig).* Ers hynny, mae *Dyfodol Llwyddiannus* ac *Arolygiaeth Dysgu: Adolygiad annibynnol o Estyn*[37] wedi argymell na ddylai Llywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc ar lefel ysgolion mwyach ond y dylai fonitro perfformiad ar agweddau allweddol drwy brofion ar sail samplu blynyddol.

3.132 Mae rhai o ganlyniadau anfwriadol y system atebolrwydd a mesurau perfformiad presennol yn cynnwys bod y dewis o ran cwricwlwm mewn pynciau nad ydynt yn cael eu mesur yn fanwl yn culhau yn y sector addysg gynradd ac uwchradd. Mae'r mesur Lefel 2 cynhwysol presennol yn creu ffocws mympwyol a gormodol ar ddysgwyr TGAU sydd ar ffin gradd C/D ac mae'r system yn creu amgylchedd lle mae ymddygiad annymunol yn cael ei annog.

3.133 I grynhoi, nid yw'r trefniadau presennol yn ffurfio set gydlynol o elfennau sy'n cydweddu ac sydd â disgwyliadau a dibenion cyson. Heb y cydlyniant hwnnw, mae'n bosibl i ysgolion dderbyn negeseuon a fydd yn croesddweud ei gilydd ynghylch yr hyn sy'n bwysig, a gallai hynny ddargyfeirio ymdrechion oddi wrth ddysgu ac addysgu tuag at gasglu a chadw tystiolaeth, sy'n helaeth, gan amlaf, er mwyn bodloni gofynion gwahanol.

3.134 Mae tystiolaeth yr OECD yn glir: os ydym am godi safonau ar gyfer pob dysgwr, yna rhaid sicrhau bod gennym system werthuso sy'n blaenoriaethu gwelliant ac yn cydlynu â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

3.135 Nododd *Dyfodol Llwyddiannus* hefyd bod asesiadau dysgwyr yng Nghymru wedi bod yn rhan o'n system atebolrwydd, a hynny'n anghywir; mae'r llinellau rhwng y ddau wedi mynd yn aneglur ac mae hynny wedi arwain at ganlyniadau negyddol, nad ydynt wedi eu bwriadu, sydd wedi bod yn faen tramgwydd i godi safonau ysgolion. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y gallai defnyddio data asesiadau athrawon 'gwerth uchel' arwain at roi straen ychwanegol ar ysgolion a disgyblion, ac y gall diwylliant o'r fath symud y sylw oddi wrth fodloni anghenion pobl ifanc fel unigolion, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar guddio gwendidau a chyflwyno darlun mwy positif o bethau. Rhoddir sylw gormodol i'r disgyblion hynny lle y byddai gwelliant bychan yn eu perfformiad yn cael effaith ar ffigurau perfformiad neu gellir gwneud ymdrechion i ddewis y boblogaeth ysgol ar draul pobl ifanc â'r anghenion mwyaf.

3.136 Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, daeth *Rheoliadau Addysg (Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018* i rym ym mis Gorffennaf 2018, a oedd yn tynnu dyletswyddau a roddwyd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gyhoeddi data asesiadau athrawon a data'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chonsortia. Er hynny,

[36] http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf
[37] https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/arolygiaeth-dysgu-adolygiad-annibynnol-o-estyn

bydd yr wybodaeth hon ar gael o fewn yr ysgol i gefnogi addysgu a hunanwerthuso gan yr ysgol. Gwnaed y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod data asesiadau athrawon yn cael eu defnyddio yn bennaf i gefnogi cynnydd ar lefel y disgybl unigol yn hytrach na'u camddefnyddio at ddibenion atebolrwydd.

3.137 Er mwyn rhoi cefnogaeth i'r amcan hwn, roedd safbwyntiau pellach wedi ystyried p'un a ddylem ddeddfu i wahardd cyhoeddo data asesu ar lefel ysgol (na data dysgwyr dienw). Er hynny, roedd trafodaeth ar yr opsiwn amgen hon gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi cynhyrchu ymateb negyddol. Roeddent yn credu bod gwahardd cyhoeddi data sy'n is na'r lefel genedlaethol yn mynd yn rhy bell ac yn awgrymu lefel o gyfrinachedd a oedd yn amhriodol Roedd rhanddeiliaid hefyd yn poeni y byddai gwaharddiad o'r fath yn eu rhwystro rhag cyhoeddi deunyddiau marchnata mewn perthynas ag ysgolion. Roeddent yn ystyried y byddai digon o wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd am ddeilliannau ysgolion uwchradd, o gofio y byddai data TGAU yn parhau i gael eu cyhoeddi.

3.138 Rydym wedi ystyried y rhinweddau o fynd ar ôl gwaharddiad gan gadw'r adborth hwn mewn cof, ac wedi dod i'r casgliad na ddylem fynd ar ôl yr opsiwn hwn.

**Trefniadau Newydd**

**Canllawiau ar hunanwerthuso**

3.139 O dan adran 33 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i roi canllawiau statudol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ar sut i arfer eu swyddogaethau addysg er mwyn gwella safon addysg. Mae'n rhaid i awdurdodau ysgolion lynu at y canllawiau oni bai bod rheswm da dros beidio â'i ddilyn a'i fod wedi cyhoeddi ei bolisi ei hun, neu, mewn achos penodol, y byddai dilyn canllawiau Gweinidogion Cymru yn afresymol.

3.140 Nid ydym yn cynnig rhoi deddfwriaeth sylfaenol ynghylch gwerthuso a gwella ysgolion ar waith, ond yn hytrach, rydym am ddefnyddio'r ddarpariaeth bresennol a'i ategu â chanllawiau statudol i helpu rhanddeiliaid i fod yn gadarn o ran eu gwaith o werthuso'r cwricwlwm newydd.

3.141 Fel y nodir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, bod y Trefniadau Gwerthuso a Gwella, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2019, yn dangos yn glir beth yw cyfrifoldebau pob rhan o'r system er mwyn sefydlu diwylliant o gydweithio a chodi safonau pod dysgwr. Mae hunanwerthuso yn sail i'r system newydd. Mae'n dilyn yr egwyddor sybsidaredd yn yr ystyr bod y cyfrifoldeb o sicrhau bod pob haen o'r system addysg (Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion) yn cyflawni ac mor agos â phosib at yr addysgu a'r dysgu.

*3.142* Bydd hunanwerthuso parhaus a chadarn yn allweddol i'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd, yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol i gefnogi gwelliannau ar gyfer ysgolion.

3.143 Nodir yr egwyddorion sy'n cynnal y fframwaith gwerthuso a gwella isod a chaiff crynodeb o’r blaenoriaethau ei gyhoeddi:

- Bydd hunanwerthuso yn ysgogi gwelliant;
- Bydd hunanwerthuso yn canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd;
- Bydd hunanwerthuso yn ddarostyngedig i i ddilysu ac adolygu gan gymheiriaid; a
- Bydd hunanwerthuso yn broses barhaus ac nid yw'n giplun o bwynt penodol mewn amser.

### Hunanwerthuso ar gyfer Dysgu a Gwella

3.144 Mae fframwaith hunanwerthuso cenedlaethol yn cael ei ddatblygu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Estyn a'r proffesiwn. Y bwriad yw bod y meini prawf gwerthuso a'r dulliau gweithredu yn rhoi cydlyniant ac yn esbonio hunanwerthuso ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia, Estyn a Llywodraeth Cymru mewn iaith gyffredin.

### Dilysu ac Adolygu gan Gymheiriaid

3.145 Bydd yn ofynnol i hunanwerthusiad gan ysgol, consortia a Llywodraeth Cymru gael elfen o bersbectif allanol os yw am gynnig yr her angenrheidiol. Bydd y gwaith dilysu ar lefel yr ysgol yn cael ei wneud yn flynyddol gan y consortia rhanbarthol a bydd ymgysylltu â chymheiriaid yn rhan o'r broses hunanwerthuso.

### Cynllun Gweithredu a Chyhoeddi

3.146 Bydd canlyniad y broses hunanwerthuso i ysgolion yn arwain at gynllun gweithredu ar gyfer gwelliant. Bydd crynodeb o hyn yn cael ei gyhoeddi gan yr ysgol.

3.147 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol ar hunanwerthuso ar gyfer pob meithrinfa ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Ar hyn o bryd, bwriedir iddo fod ar ffurf arweinlyfr cenedlaethol ar hunanwerthuso, a fydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Estyn ac ymarferwyr.

3.148 Mae'r mesurau pontio er mwyn rhoi'r fframwaith gwerthuso a gwella newydd ar waith er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru wedi eu hamlinellu yn y manylion a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019.

3.149 Bydd pob haen [38] yn elwa ar hunanwerthuso ar sail ystod eang o wybodaeth ansoddol a meintiol. Bydd mwy o dryloywder yn y dyfodol o ran y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi gwelliant o ganlyniad i'r gofyniad i gyhoeddi crynodeb o'r camau. Bydd adolygu gan gymheiriaid a dilysu yn cyflwyno atebolrwydd ychwanegol i'r system. Bydd yn tynnu ar ystod ehangach o wybodaeth nid dim ond ar gyfres fechan o ddata perfformiad.

---

[38] Haen 1 - Llywodraeth Cymru; Haen 2 - Pedwar consortiwm rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, byrddau arholi ac addysg uwch; a Haen 3 - Ysgolion

3.150 Byddwn yn sefydlu rhaglen fonitro ac yn trafod â phartneriaid wrth ei ddatblygu. Yr egwyddorion allweddol a fydd yn sail i hyn yw y dylai ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft, llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, gwyddoniaeth ac iechyd a lles, a dim ond ar lefel genedlaethol y bydd yn rhoi gwybodaeth. Ei ddiben yw asesu sut y mae'r system addysg gyfan yn perfformio ac i lunio blaenoriaethau polisi ar lefel genedlaethol. Dylai felly osgoi creu cymhelliant ar gyfer ymddygiad anghywir a pheryglon atebolrwydd 'gwerth uchel'.

3.151 Bydd gan gyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran dal y system yn atebol. Mae Adolygiad Annibynnol o Estyn wedi argymell newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio, ond bydd ei rôl o adrodd ar ansawdd a safonau addysg yn parhau yn ogystal ag ymgorffori'r elfen newydd o hunanwerthuso a darparu atebolrwydd allanol drwy ddilysu hunanwerthuso drwy arolygiad.

3.152 Bydd dyletswyddau statudol Estyn i arolygu ac adrodd ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn parhau yn ogystal â'r darpariaethau eraill sydd yn adran 20 a 28 o Ddeddf Addysg 2005. Bydd ysgolion yn dal i gael eu barnu yn ôl y pum maes arolygu fel y nodir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin[39] (Safonau; Lles ac Agweddau at ddysgu; Profiadau Addysgu a Dysgu; Gofal, Cymorth ac Arweiniad; Arwain a Rheoli) ar y cyd â'r pedwar prif gwestiwn a nodwyd yn argymhelliad pump fel y cytunwyd arno gan Estyn.[40] Mae angen rhagor o waith o ran gweld sut y bydd hyn yn edrych o fewn fframwaith arolygu cyffredin yn y dyfodol, ond bydd yn ffurfio rhan o ymgynghoriad ffurfiol gan Estyn wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

3.153 Yn y dyfodol bydd hunanwerthusiad gan ysgol yn cael ei ddilysu drwy arolygiad gan Estyn; mae'r Adolygiad o Estyn yn darparu llwybr clir i gynnwys dilysu fel rhan o'u proses arolygu newydd.

**Cyfnod pontio Medi 2020 - Medi 2024**

3.154 Mae ‘Arolygiaeth Dysgu’ yn rhagweld dull gweithredu ac iddo dri chyfnod er mwyn trosglwyddo o drefniadau arolygu presennol Estyn i'r trefniadau newydd. Mae'r amserlen ar gyfer y modd y mae Estyn yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn wedi ei lunio i adlewyrchu'r ffordd y bydd y diwygiadau yn ennill eu plwyf ac yn cefnogi hynny. Byddai pob cam yn cadw rôl Estyn o ddarparu sicrwydd annibynnol a chredadwy. Mae Estyn yn bwriadu ymgynghori ar y trefniadau yn y man.

[39] https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu/fframwaith-arolygu-cyffredin

[40] Dylai diben strategol arolygu a hunanwerthuso (a mecanweithiau atebolrwydd ehangach) ganolbwyntio ar ateb pedwar prif gwestiwn:

a) Pa mor dda y mae'r ysgol yn mynd i'r afael â dibenion Cwricwlwm Cymru?
b) Pa mor dda y mae disgyblion yn dod yn eu blaen o ran dysgu a chyrraedd y safonau uchel priodol?
c) Pa mor dda a datblygedig yw'r sylfaen gyfredinol ar gyfer dysgu: • dyfnder, cydbwysedd a phriodolrwydd y cwricwlwm?
  • ansawdd y dysgu a'r addysgu?
  • lles yr holl ddisgyblion?
d) Pa mor dda yw'r yshol o ran defnyddio hunanwerthuso a dysgu proffesiynol i nodi ei chryfderau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer datblygiad?

https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/A%20Learning%20Inspectorate%20-%20cy%20-%20June%202018.pdf

Cwestiynau:

16. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu a amlinellir ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu?
17. Beth yw eich barn ar y dull gweithredu arfaethedig o ran cyhoeddi data asesu dysgwyr ac a ydych yn rhagweld peryglon?

## Asesiadau effaith

3.155 Bydd yn ofynnol i'r system addysg newid i gyflwyno'r trefniadau newydd a'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn; mae hyn yn cynnwys newidiadau i ymarferwyr, ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol. Bydd y cynigion hyn yn cael effaith ar yr addysg y mae plant a phobl ifanc yn ei chael yng Nghymru a dyma'r brif sail dros y gwaith diwygio hwn.

3.156 Mae'n bwysig deall y gofynion newydd hyn, a all amrywio o gostau ariannol neu arbedion, i newidiadau mewn diwylliant neu ymddygiad, effaith amgylcheddol a chymdeithasol ac er mwyn trosglwyddo'r ddealltwriaeth honno fel bod y cyhoedd yn llwyr ddeall y cynigion hyn.

3.157 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiadau effaith sy'n dod gyda'r Papur Gwyn hwn yn dangos dechrau'r broses arfarnu er mwyn deall yr effeithiau posibl ac rydym yn croesawu safbwyntiau sy'n cynorthwyo'r gwaith arfarnu hwnnw. Mae'r asesiadau effaith wedi nodi y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a hawliau plant. Mae'r cynigion deddfwriaethol yn edrych ar gefnogi egwyddorion cynllunio'r trefniadau newydd, sef eu bod yn briodol bod dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth. Nododd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb effeithiau'r cynigion ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r asesiadau effaith hyn er mwyn deall yr effeithiau tebygol wrth i'r cynigion deddfwriaethol a'r cwricwlwm ddatblygu.

Cwestiwn:

18. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? Ydych chi'n credu bod yna rhywbeth arall y dylem roi sylw iddo?

Cwestiwn:

19. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

# 4. Cyflawni

## Dysgu proffesiynol

4.1 Rydym eisiau i rieni fod yn hyderus bod eu plant yn mynd i ysgol sy'n eu meithrin i dyfu yn ddinasyddion galluog, iach a chyflawn. Er mwyn llwyddo i wneud hyn, rydym yn cydnabod bôr rhaid rhoi cymorth i athrawon i fod y gorau y gallant fod, gan godi statws y proffesiwn yn gyffredinol.

4.2 Mae athrawon yn rhannu cenhadaeth unigol, cenhadaeth broffesiynol a chenhadaeth genedlaethol i helpu ein plant i lwyddo. Wrth gydweithio â'r proffesiwn, byddwn yn codi safonau addysgu ac yn darparu cyfleoedd datblygu.

4.3 Bydd y cwricwlwm newydd yn galluogi athrawon i fod yn hyderus, uchelgeisiol ac arloesol, a byddwn yn cefnogi athrawon i fod y gorau y gallant fod, gan godi statws y proffesiwn yn gyffredinol. Mae'n ymateb i'r hyn y mae'r athrawon eu hunain wedi bod yn gofyn amdano, i'w galluogi i fod yn greadigol a defnyddio eu harbenigedd proffesiynol wrth iddynt gefnogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial ac i godi safonau.

4.4 Mae adroddiad yr Athro John Furlong, sef *Addysgu Athrawon Yfory,*[41] yn hanfodol wrth fynd ati i ddiwygio ein cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygu'r sgiliau y mae athrawon eu hangen ac yn dymuno eu cael, sydd yn gysylltiedig â'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd, a datblygu staff cymorth dysgu.

4.5 Dylai athrawon fod yn fyfyrwyr gydol oes hefyd. Dylent ddysgu oddi wrth ei gilydd, gwella'n barhaus ac astudio arfer da boed hynny o'r ysgol, y wlad neu'r cyfandir nesaf. Mae Ysgolion Arloesi eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran cefnogi dysgu o'r math hwn rhwng cyfoedion. Mae ffedereiddio yn ysgogiad strwythurol effeithiol a allai, ac a fydd yn cael ei ddefnyddio i ehangu gwelliant mewn ysgolion, sydd wedi ei ategu gan raglen arweinyddiaeth.

4.6 Bydd ysgogiad lleol ac ysgogiad ymhlith gymheiriaid yn digwydd o fewn dull gweithredu sy'n ymdrin â dysgu proffesiynol gydol gyrfa sy'n ychwanegu capasiti i'r holl ymarferwyr, gan gynnwys staff cymorth addysgu ac arweinwyr ysgolion.

4.7 Bydd dull gweithredu cenedlaethol o ymdrin â dysgu proffesiynol yn lleihau amrywiadau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn sicrhau tegwch i'r holl ymarferwyr.

4.8 Mae Ysgolion arloesi wrthi'n casglu tystiolaeth ffocws i lunio dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd y gwaith hwn yn help i nodi'r gofynion dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ar unwaith. Bydd y cwricwlwm newydd yn galw ar yr holl ymarferwyr i ailfeddwl am yr hyn y maent yn eu haddysgu ac am yr hyn y mae pobl ifanc am fod ac am ei ddysgu. Bydd y gwaith ymgysylltu o dan arweiniad arloeswyr yn helpu i roi sgiliau i ymarferwyr addysg er mwyn iddynt ddygymod a throsglwyddo i'w rôl newydd fel 'cynllunwyr y cwricwlwm'.

[41] https://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy

4.9 Rydym wedi bod yn gweithio â'r OECD ers mis Tachwedd 2016 i ddatblygu model 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'[42] i Gymru er mwyn ehangu capasiti hunanwella o fewn ac ar draws ein hysgolion yn barhaus. Lansiwyd y model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ym mis Tachwedd 2017, ac mae'n helpu i greu a rhannu cyfleoedd dysgu a manteisio arnynt, mewn ysgolion, rhwng ysgolion, a chyda sefydliadau allanol. Mae'n galluogi athrawon, arweinwyr ac ysgolion i gydweithio ag ysgolion a rhwydweithiau eraill i nodi anghenion datblygu cyffredin a mynd i'r afael â nhw.

4.10 Rydym hefyd yn edrych ar y defnydd o ddiwrnodau HMS i sicrhau eu bod yn cefnogi dysgu proffesiynol yn y dyfodol, gan gydweithio â rhanddeiliaid allweddol.

**Y Goblygiadau ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)**

4.11 Mae rhaglen ddiwygio AGA bellgyrhaeddol yn cael ei rhoi ar waith mewn ymateb i *Addysgu Athrawon Yfory*[43]*.* Bydd hyn yn cefnogi ein diwygiadau addysg i godi safonau a darparu proffesiwn addysg o ansawdd uchel.

4.12 Bydd rhaglenni AGA newydd amser llawn ar gael o flwyddyn academaidd 19/20 ymlaen. Wrth i Gymru symud tuag at system AGA ddiwygiedig, dylai partneriaethau AGA fod yn glir ynghylch y gweithgareddau sydd yn eu rhaglenni ar gyfer datblygu athrawon dan hyfforddiant i addysgu'r cwricwlwm newydd.

4.13 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod AGA yng Nghymru yn cryfhau drwy system sy'n hollol gydweithredol, lle mae prifysgolion ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaethau cryf, gyda chefnogaeth y consortia a chan gydnabod pwysigrwydd ymchwil, i ddatblygu athrawon ac arweinwyr effeithiol iawn sy'n fyfyrgar a chanddynt ymrwymiad i'w twf proffesiynol eu hunain a'u cydweithwyr er mwyn sicrhau bod y dysgu a'r addysgu'n effeithiol yn ein hysgolion.

[42] https://beta.llyw.cymru/ysgolion-fel-sefydliadau-syn-dysgu-model
[43] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-hyfforddiant-cychwynnol-athrawon-2015-addysgu-athrawon-yfory

## 5. Cwestiynau Ychwanegol

**Cwestiwn 20** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 21** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 22** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Atodiad A

## Rhestr Dermau

### A

**Addoli ar y Cyd** – gweithred addoli dyddiol ar gyfer pob disgybl, sydd o natur Gristnogol ar y cyfan. Nid yw addoli ar y cyd yn rhan o'r cwricwlwm ac felly nid yw *Dyfodol Llwyddiannus* yn mynd i'r afael â hyn.

**Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl** – cyfeirir ato fel 'Cenhadaeth Ein Cenedl'. Dyma gynllun Llywodraeth Cymru i barhau i godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg y gall y wlad fod yn falch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderu ynddi. Bwriedir cyflwyno'r cynllun yn 2022.

**Addysgeg** - dulliau ac arferion addysgu, yn enwedig fel pwnc academaidd neu gysyniad damcaniaethol.

**Adolygu gan gymheiriaid** - safbwynt allanol fel elfen o hunanwerthuso sy'n cynnwys arweinwyr uwch, arweinwyr canolradd ac athrawon ar lefel yr ysgol, a'r ARC ar lefel System Addysg Cymru.

**ARC – yr '*Atlantic Rim Collaboratory'*** – grŵp byd-eang o systemau addysgol sy'n hyrwyddo tegwch, rhagoriaeth, lles, cynhwysiant, democratiaeth a hawliau dynol i ddygwyr, a hynny o fewn systemau proffesiynol o safon.

**Asesu** - y trefniadau y mae athrawon yn eu defnyddio i fonitro cynnydd disgyblion

(gweler hefyd Asesu Statudol).

**Asesu Crynodol** – caiff ei ddefnyddio i werthuso dysgu myfyrwyr, caffael sgiliau a chyflawniad academaidd ar ddiwedd cyfnod penodol (fel arfer ar ddiwedd prosiect, uned, cwrs, semestr, rhaglen neu flwyddyn ysgol).

**Asesu Ffurfiannol** - ystod o weithdrefnau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys profion diagnostig, a ddilynir yn ystod y broses ddysgu er mwyn addasu gweithgareddau addysgu a dysgu i wella cyrhaeddiad myfyrwyr. Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys adborth ansoddol ar gyfer y dysgwr a'r athro - adborth sy'n canolbwyntio ar fanylion cynnwys a pherfformiad.

### C

**Camau Cynnydd** - Bydd Camau Cynnydd rheolaidd yn darparu 'trywydd' ar gyfer cynnydd dysgu pob plentyn a pherson ifanc. Cânt eu disgrifio ar bum pwynt yn y continwwm dysgu, a fydd yn cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

**Consortia Rhanbarthol** – mae pedwar ohonynt yng Nghymru. Consortia yw awdurdodau lleol yn cydweithio i ychwanegu gwerth i'r hyn y gallant ei gyflawni ar eu pen eu hunain, gan ganiatáu iddynt rannu arferion da, gwybodaeth a sgiliau, gwneud y mwyaf o'u cryfderau lleol a datblygu capasiti.

**Cyfnod(au) Allweddol** – Ar ôl y Cyfnod Sylfaen, rhennir ysgolion yn gamau yn ôl oedran (Cyfnod Allweddol 2: 7-11, Cyfnod Allweddol 3: 11-14, Cyfnod Allweddol 4: 14-16).

**Cyfnod Sylfaen** – y cwricwlwm ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a Lleoliadau Meithrin a Gyllidir. O fewn y Cyfnod Sylfaen, nodir y cwricwlwm ar ffurf saith maes dysgu.

**Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd** – mae Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn sail i bron pob math o ddysgu ac yn hanfodol i'r gallu i gymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern. O ran y cwricwlwm newydd, mae'r rhain wedi'u diffinio fel llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r rhain, felly, wedi cael blaenoriaeth dros Sgiliau Ehangach (gweler uchod).

**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** (CYBLD) - gwaith statudol i gasglu gwybodaeth ysgolion, a manylion a nodweddion disgyblion a'r cwricwlwm.

**Cymhwysedd Digidol** - gwybodaeth, sgiliau ac agweddau penodol er mwyn gallu defnyddio technolegau a systemau yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

**Cwricwlwm** – Dywedodd yr Athro Donaldson fod y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynllunnir i gyflawni dibenion cytunedig addysg.

**Cwricwlwm Cenedlaethol** - mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Mae'n cynnwys y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol. Ar gyfer pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, amlinellir Rhaglenni Astudio Gorfodol a threfniadau asesu ar lefel genedlaethol.

**Cwricwlwm Sylfaenol** - mae'r Cwricwlwm Sylfaenol yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid ei addysgu ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, ynghyd â chydrannau eraill megis Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol, Addysg Gymdeithasol ac ati.

## D

**Dangosydd Perfformiad** - dangosydd y cytunir arno i fesur cyrhaeddiad ac i asesu newidiadau o ran perfformiad.

**Dangosyddion Gwerthuso** - ystod o ddangosyddion i ysgolion eu defnyddio i hunanwerthuso. Byddai hyn yna'n rhan o'r Fframwaith Hunanwerthuso Cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD), Estyn a'r proffesiwn.

**Deilliannau Cyflawniad** - datganiadau, o safbwynt y dysgwr, i ddangos datblygiad ar hyd y camau cynnydd. Dylai'r rhain gyfrannu at Bedwar Diben y Cwricwlwm mewn ffordd glir a dylent bwysleisio cyflawni mewn ystyr eang, yn hytrach na ffordd gul o'i fesur. Maent yn mynd ar draws cydrannau'r Maes Dysgu a Phrofiad ac yn taclo'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a'r sgiliau ehangach.

**Dilysu / Gwirio** - caiff hunanwerthuso ei ddilysu gan Estyn fel rhan o'r broses arolygu newydd sydd wrthi'n cael ei chreu yn dilyn adolygiad yr Athro Donaldson o Estyn.

**Dyfodol Llwyddiannus** - Adolygiad o'r system addysg yng Nghymru gan yr Athro Donaldson a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015. Mae'n cynnwys 68 o argymhellion a oedd yn amlinellu ei gasgliadau yn dilyn adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru.

## FF

**Fframwaith Asesu a Gwerthuso** - ymagwedd ar draws y system, o'r Blynyddoedd Cynnar i addysg Ôl-16, i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg o safon mewn amgylchedd lle mae pob dysgwr yn gallu manteisio ar gwricwlwm cynhwysol ac amrywiol, gan gydnabod pwysigrwydd iechyd a lles.

## G

**Gwasanaeth Addysg Gatholig** – y corff sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo Addysg Gatholig yng Nghymru a Lloegr.

**Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith -** Mae Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn ymdrin â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu dysg, a'r byd gwaith - y nod yw helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau da am eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Dylai Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith alluogi dysgwyr i:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes;
- cynllunio a rheoli eu llwybr drwy'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd i'w cael o ran dysgu a gwaith;
- datblygu Sgiliau Allweddol a sgiliau eraill y mae cyflogwyr yn edrych amdanynt; a
- pharatoi ar gyfer heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau byd gwaith, a bywyd fel oedolyn.

## H

**Hunanwerthuso** – mae hunanwerthuso parhaus, ansoddol a meintiol, yn canolbwyntio'n gryf ar wella deilliannau o ran safonau a lles i bob disgybl. Mae'r OECD, Estyn ac athrawon wrthi'n datblygu fframwaith hunanwerthuso sydd â'r nod o gydlynu'r maes a chysoni'r iaith a'r meini prawf.

## Ll

**Lleoliad Meithrin a Gyllidir** - addysg feithrin a ddarperir gan leoliad preifat a gyllidir gan awdurdod lleol yng Nghymru yn unol ag adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Dyletswydd awdurdod lleol o ran argaeledd addysg feithrin).

**Llythrennedd** - y gallu i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth ym maes llefaredd, darllen ac ysgrifennu mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol, y cartref a'r gymuned.

## M

**Maes Llafur  Cytunedig** - maes llafur Addysg Grefyddol, nad yw'n benodol i un

grefydd, a fabwysiedir gan awdurdod lleol i'w addysgu mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir. Cynhelir Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig i argymell maes llafur i awdurdod lleol.

**MDPh** – ‘Maes Dysgu a Phrofiad’. Bydd strwythur y cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

## P

**Pedwar Diben** - mae'r cwricwlwm newydd a gynigir yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysfawr ac yn heriol. Wrth wraidd y cwricwlwm y mae'r pedwar diben, sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n yng Nghymru a’r byd.

I weld y nodweddion perthynol ar gyfer pob diben, ewch i dudalennau 29-30 o *Dyfodol Llwyddiannus*.

**Pynciau Craidd** – ar hyn o bryd: Cymraeg (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg), Saesneg, Mathemateg ac un Gwyddoniaeth. Y pynciau sydd wedi'u nodi â lefel benodol o bwysigrwydd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 astudio'r pynciau craidd yn ogystal â'r pynciau sylfaenol (mae Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac Addysg Gorfforol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4).

## RH

**Rhifedd** - defnyddio dealltwriaeth fathemategol yn ddyddiol mewn gweithgareddau yn yr ysgol, y cartref a'r gymuned.

**Rhwydwaith Arloesi -** Mae'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi yn arwain y gwaith o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae amrywiaeth o wahanol ysgolion o bob cwr o Gymru yn rhan ohono. Mae'r Rhwydwaith yn bwrw ymlaen â thair ffrwd o waith:

- Cynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd;
- Datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a sicrhau ei fod yn rhan o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad; a
- Dysgu Proffesiynol i Ymarferwyr.

Maent yn gweithio gyda'i gilydd gan rannu arferion a dysgu ar draws y sector.

## S

**'SACRE'** – **Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol** - Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu SACRE i'w gynghori ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion.

**Sgiliau Ehangach** - sef:

- meddwl yn feirniadol a datrys problemau – mabwysiadu prosesau beirniadol a rhesymegol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd a llunio ymatebion a datrysiadau;
- cynllunio a threfnu – gweithredu datrysiadau, rhoi syniadau ar waith, monitro'r canlyniadau a'u hystyried;
- creadigrwydd ac arloesedd – meddwl am syniadau, bod yn agored, a magu hyder i archwilio syniadau a mynegi barn; ac
- effeithiolrwydd personol – ystyried eich hun ac eraill, deall eich hun ac eraill, ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol; bod yn ddysgwr effeithiol.

Yn yr un modd â gwledydd eraill ar draws y byd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu set o 'sgiliau ehangach' y credir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith yn y byd modern. Mae wedi cymryd camau i ofalu bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau ehangach hyn ac yn dod yn fwy cydnerth a galluog wrth ddelio â'r heriau newidiol y bydd unigolion yn eu hwynebu, yn awr ac yn y dyfodol.

## T

**Trefniadau Gwerthuso a Gwella** - wedi'u sefydlu o dan fframwaith asesu a gwerthuso trosfwaol er mwyn sicrhau cydlyniad, ac fel sail i'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu.

## Y

**Ymagwedd Ysgol Gyfan** - mynd i'r afael ag anghenion disgyblion, staff a'r gymuned ehangach, nid yn unig o fewn y cwricwlwm, ond ar draws yr amgylchedd dysgu a'r ysgol gyfan. Hynny yw, cysylltu pob elfen o ddarpariaeth, polisïau, staff a chymuned lleoliad addysg; annog cyfathrebu ac ategu ethos cadarnhaol cyson, a darparu cymorth holistaidd o safon i ddysgwyr.

# Atodiad B

## Meysydd Dysgu a Phrofiad: Cynnwys a Chanllawiau

*Nodwch fod y model hwn ar ffurf drafft ar hyn o bryd. Bydd y cwricwlwm drafft ar gael ym mis Ebrill 2019 er mwyn inni gael adborth arno.

**Cydrannau Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh)**

*Lle bo hynny'n briodol, cyfeirir at y cysylltiadau, y dibyniaethau a'r rhyngddibyniaethau o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, a rhyngddynt.*

**Ddatganiad am y ffordd y mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn hyrwyddo'r pedwar diben**

Mae'r Pedwar Diben wrth galon pob penderfyniad am ddylunio ein Cwricwlwm i Gymru. Mae pob MDPh yn cynnwys datganiad sy'n esbonio sut y mae'n gwneud cyfraniadau penodol a chryf at ddatblygu Pedwar Diben y Cwricwlwm.

**Datganiadau'n amlinellu sut dylid cynnwys yr agweddau canlynol ar y Cwricwlwm yn y Maes Dysgu a Phrofiad:**

- Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol;
- Y Dimensiwn Cymreig a Safbwyntiau Rhyngwladol;
- Dysgu'n Gysylltiedig â Gwaith;
- Sgiliau Ehangach; a
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Eir i'r afael â'r agweddau hyn ar y cwricwlwm newydd ym mhob MDPh gan eu bod wedi'u nodi fel rhai trawsgwricwlaidd hy. agweddau o'r cwricwlwm y mae cyfrifoldeb ar bob ymarferydd i i'w hystyried a'u cynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu ar lefel yr ysgol.

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'u Sail Resymegol**

Defnyddir y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig fel ffordd o drefnu dysgu. O'u hystyried gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu'r holl Faes Dysgu a Phrofiad. Maent yn deillio o Bedwar Diben y Cwricwlwm, gyda gwybodaeth a sgiliau disgyblaethol allweddol yn sail iddynt. Maent felly'n amlinellu'r agweddau allweddol ar ddysgu ym mhob MDPh.

Mae sail resymegol i gyd-fynd â phob datganiad sy'n archwilio ymhellach yr hyn a fynegir yn y datganiad ac sy'n darparu cyfiawnhad o ran pam ei fod yn agwedd sy'n bwysig iawn yn y MDPh. Mae'r sail resymegol yn pwysleisio'r cysylltiadau rhwng y

Pedwar Diben, y disgyblaethau o fewn y MDPh, y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen i'w cyflawni.

**Cymorth Cynllunio: y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen i gyflawni pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig**

Ar gyfer pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig, rhoddir rhagor o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm lefel ysgol ac i helpu dysgwyr i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r datganiadau a phedwar diben y cwricwlwm. Mae datganiadau lefel uchel wedi'u datblygu mewn perthynas â phrofiadau, gwybodaeth (disgyblaethol a chyfryngol) a sgiliau a, lle bo hynny'n briodol, cyfeirir hefyd at ddilyniannu.

Mae datganiadau'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau wedi'u datblygu fel man cychwyn cyffredin ar gyfer y cwricwlwm lefel ysgol, gan sicrhau cydbwysedd rhwng canllawiau cenedlaethol a hyblygrwydd yn lleol, yn unol â'r egwyddor o sybsidiaredd.

Os penderfynir ei fod yn hanfodol i gyflawni'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig, cyfeirir at yr agweddau trawsgwricwlaidd a amlinellir uchod.

**Disgrifiadau o'r Dysgu: Camau Cynnydd a Deilliannau Cyflawniad**

Dylai dilyniant a chynnydd gael ei ddangos fel taith ddysgu drwy Gamau Cynnydd ar bum pwynt yn y continwwm dysgu, sy'n cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Mae Deilliannau Cyflawniad wedi'u datblygu mewn perthynas â phob un o'r pum Cam Cynnydd ar gyfer pob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig. Cânt eu nodi o safbwynt y dysgwr, gan ddefnyddio 'Rydw i wedi...' ar gyfer profiadau a 'Gallaf...' ar gyfer deilliannau.

Mae Deilliannau Cyflawniad yn darparu disgrifiadau o ddysgu fel disgwyliadau eang y gellid eu cyflawni dros gyfnod o amser, sef tua thair blynedd. Maent yn:

- rhoi pwys ar gyflawniad yn yr ystyr eang, yn hytrach na ffordd gul o'u mesur;
- cynnwys cyfeiriadau at brofiadau sy'n briodol i'r Pedwar Diben ac y dylai plant a phobl ifanc fod â hawl iddynt; a
- gofyn am sawl dull gwahanol o asesu.

**Ymdrinnir â'r agweddau uchod mewn Canllawiau Statudol (y bydd rhaid i ysgolion arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus iddynt)**

**Enghreifftiau eraill o gefnogaeth i ymarferwyr**

**Canllawiau trosfwaol** sy'n esbonio'r model MDPh ac egwyddorion ar gyfer cefnogi'r gwaith o gynnwys yr agweddau canlynol ar draws y cwricwlwm:

- Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol (statudol tan 16 oed);
- Y Dimensiwn Cymreig a Safbwyntiau Rhyngwladol;
- Sgiliau Ehangach;
- Cyfoethogi a Phrofiadau;
- Cymraeg ar draws y Cwricwlwm;
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; a
- Dysgu’n Gysylltiedig â Gwaith.

Ni fydd y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd na'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol** yn statudol yn y cwricwlwm newydd. Yn hytrach, cânt eu diweddaru a byddant ar gael o hyd i gefnogi ysgolion a lleoliadau i gynnwys y cyfrifoldebau hyn ar draws y cwricwlwm.

Dogfennau canllaw ar Addysg Cydberthynas a **Rhywioldeb a Dysgu Cysylltiedig â Gwaith** i roi arweiniad ar ymagweddau ysgol gyfan.

**Canllawiau penodol ar gyfer pob MDPh**

Bydd canllawiau pellach ar gael ar gyfer pob MDPh i gefnogi ymarferwyr i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Lle bo hynny'n briodol, bydd y canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar agweddau megis:

- Addysgeg sy'n benodol i'r MDPh;
- Enghreifftio;
- Canllawiau mwy penodol i ddisgyblaeth i gefnogi ymagweddau integredig i ddylunio'r MDPh;
- Sut gellid datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr ymhellach drwy'r MDPh; a
- Cyfeiriadau at adnoddau defnyddiol.

**Caiff y rhain eu nodi mewn Canllawiau Anstatudol i gefnogi ymarferwyr**